



Rhif ymchwil gymdeithasol

11/2018

Dyddiad cyhoeddi:

22 Chwefror 2018

# Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisïau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad terfynol

Teitl: Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisïau  
Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad terfynol

Awduron: Colin Angus, John Holmes, Alan Brennan a Petra Meier  
Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield  
Ysgol Iechyd ac Ymchwil Gysylltiedig  
Prifysgol Sheffield

Angus, C., Holmes, J., Brennan, A. a Meier, P. (2018). *Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisïau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad terfynol*  
Caerdydd: Llywodraeth Cymru  
Adroddiad GSR rhif 11/2018  
Ar gael ar: <http://gov.wales/statistics-and-research/research-likely-impact-public-attitudes-towards-minimum-unit-price-alcohol/?lang=cy>



The  
University  
Of  
Sheffield.

Safbwyntiau'r ymchwilwyr, ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru, yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Janine Hale

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 6539

E-bost: [janine.hale@llyw.cymru](mailto:janine.hale@llyw.cymru)

Caiff y rhan fwyaf o'r deunydd sy'n ymddangos ar y wefan hon ei ddiogelu gan hawlfraint y Goron.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos ar y wefan hon (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r **Drwydded Llywodraeth Agored**.

Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored (<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3>), ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at yr Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon neges e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Os bydd unrhyw un o'r eitemau ar y safle hwn sydd dan hawlfraint y Goron yn cael ei hailgyhoeddi neu ei chopïo ar gyfer pobl eraill, rhaid nodi ffynhonnell y deunydd a chydabod y statws o ran hawlfraint (er enghraifft, Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2012). Rydym yn eich annog hefyd i greu hyperddolenni at y wefan hon.

Nid yw'r caniatâd i atgynhyrchu deunydd hawlfraint y Goron yn cynnwys unrhyw ddeunydd ar y safle hwn y nodwyd bod gan drydydd parti hawlfraint arno. Byddai angen cael caniatâd deiliaid yr hawlfraint honno i atgynhyrchu deunydd o'r fath.

Mae Model Polisi Alcohol Sheffield yn Eiddo Deallusol i Brifysgol Sheffield.

## Geirfa

| Acronym/Allweddair                         | Diffiniad                                                                                                                                                                                                         |
|--------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Yfwyr cymedrol                             | Pobl sy'n yfed yn unol â'r hyn a argymhellir yng nghanllawiau presennol y Deyrnas Unedig, sef 14 uned yr wythnos                                                                                                  |
| Yfwyr peryglus                             | Pobl sy'n yfed mwy na'r hyn a argymhellir yng nghanllawiau'r Deyrnas Unedig, ond sy'n yfed llai na 50 uned yr wythnos i ddynion, neu 35 i fenywod                                                                 |
| Yfwyr niweidiol                            | Pobl sy'n yfed mwy na 50 uned yr wythnos i ddynion neu 35 i fenywod                                                                                                                                               |
| Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)  | Mesur cyfansawdd lefel ardal fach o amddifadedd economaidd-gymdeithasol sy'n cyfrifo lefelau lleol o incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai. |
| Mewnfasnach                                | Mannau lle caiff alcohol ei werthu i'w yfed yn y fangre, e.e. tafarnau a bwytai                                                                                                                                   |
| Allfasnach                                 | Mannau lle caiff alcohol ei werthu i'w yfed i ffwrdd o'r fangre, e.e. siopau ac archfarchnadoedd                                                                                                                  |
| Cyflyrau iechyd cysylltiedig ag alcohol    | Cyflyrau iechyd y mae yfed alcohol yn cynyddu (neu'n lleihau) risg marwolaeth a/neu dderbyniad i ysbyty ohonynt <sup>1</sup>                                                                                      |
| Canlyniadau y gellir eu priodoli i alcohol | Canlyniadau (e.e. marwolaethau) na fyddent wedi digwydd heb yfed alcohol h.y. y rheiny y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i alcohol                                                                              |

<sup>1</sup> Nodwch nad yw'r diffiniad hwn yr un peth â diffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o 'Farwolaethau sy'n Gysylltiedig ag Alcohol' sydd wedi cael ei ddiwygio yn ddiweddar. <sup>60</sup>

## Tabl Cynnwys

|                                                                                                    |    |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Geirfa.....                                                                                        | 2  |
| Mynegai Tablau.....                                                                                | 5  |
| Mynegai Ffigurau.....                                                                              | 7  |
| Crynodeb Gweithredol .....                                                                         | 9  |
| Prif Gasgliadau.....                                                                               | 9  |
| Nodau'r ymchwil.....                                                                               | 9  |
| Crynodeb o ganfyddiadau'r model.....                                                               | 10 |
| Llinell sylfaen yfed alcohol, niwed cysylltiedig a phrynu alcohol yng Nghymru .....                | 10 |
| Effeithiau a fodelir isafbris uned ar faint o alcohol a gaiff ei yfed, ar wariant ac ar refeniw .. | 11 |
| Effeithiau a fodelir isafbris uned ar niwed cysylltiedig ag alcohol.....                           | 11 |
| Cymharu effeithiau a fodelir isafbris uned a chodiadau mewn trethi ar alcohol.....                 | 12 |
| Cyflwyniad .....                                                                                   | 14 |
| Dulliau.....                                                                                       | 15 |
| Trosolwg o'r model .....                                                                           | 15 |
| Data .....                                                                                         | 16 |
| Data ar y boblogaeth .....                                                                         | 16 |
| Data ar yfed alcohol.....                                                                          | 16 |
| Data ar bris alcohol.....                                                                          | 16 |
| Cyfraddau trosglwyddo trethi .....                                                                 | 17 |
| Data ar farwolaethau .....                                                                         | 18 |
| Data ar forbidrwydd .....                                                                          | 18 |
| Data ar gostau gofal iechyd .....                                                                  | 18 |
| Ansawdd bywyd cysylltiedig ag iechyd .....                                                         | 21 |
| Perthnasoedd rhwng yfed alcohol a risg niwed i iechyd.....                                         | 21 |
| Data niferoedd troseddau .....                                                                     | 21 |
| Demograffeg troseddwyr .....                                                                       | 21 |
| Costau troseddau .....                                                                             | 21 |
| Ffracsiynau y gellir eu priodoli i alcohol ar gyfer troseddau .....                                | 21 |
| Cyfraddau cyflogaeth ac absenoldeb.....                                                            | 23 |
| Costau absenoldeb o'r gweithle.....                                                                | 23 |
| Ffracsiynau y gellir eu priodoli i alcohol ar gyfer absenoldeb o'r gweithle .....                  | 23 |
| Newidiadau ers adroddiad 2014.....                                                                 | 23 |
| Canlyniadau.....                                                                                   | 27 |
| Llinell sylfaen yfed a phrynu alcohol .....                                                        | 27 |

|                                                                                                  |    |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Llinell sylfaen y marwolaethau a'r derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol.....     | 33 |
| Llinell sylfaen troseddau y gellir eu priodoli i alcohol.....                                    | 37 |
| Llinell sylfaen absenoldeb o'r gweithle y gellir ei briodoli i alcohol.....                      | 37 |
| Llinell sylfaen costau alcohol .....                                                             | 37 |
| Gwerthusiad o effaith bosibl ystod o drothwyon isafbris uned .....                               | 38 |
| Amcangyfrif o effaith isafbris uned ar faint o alcohol a gaiff ei yfed .....                     | 38 |
| Amcangyfrif o effaith isafbris uned ar wariant ar alcohol .....                                  | 41 |
| Amcangyfrif o effaith isafbris uned ar y refeniw i fanwerthwyr a'r Trysorlys.....                | 43 |
| Amcangyfrif o effaith isafbris uned ar ganlyniadau iechyd.....                                   | 45 |
| Amcangyfrif o effaith isafbris uned ar ganlyniadau troseddau .....                               | 55 |
| Amcangyfrif o effaith isafbris uned ar ganlyniadau'r gweithle .....                              | 57 |
| Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar gostau i'r gymdeithas .....                      | 59 |
| Cymharu polisïau isafbris uned a threthi .....                                                   | 62 |
| Cyfwerthu cyfraddau treth.....                                                                   | 62 |
| Effeithiau cymharol isafbris uned a threth ar faint o alcohol a gaiff ei yfed a gwariant .....   | 63 |
| Effeithiau cymharol polisïau isafbris uned a threthi ar refeniw i'r Trysorlys a manwerthwyr .... | 69 |
| Effeithiau cymharol polisïau isafbris uned a threthi ar iechyd .....                             | 71 |
| Effaith gymharol polisïau isafbris uned a threthi ar droseddau .....                             | 78 |
| Effaith gymharol polisïau isafbris uned a threthi ar absenoldeb o'r gweithle .....               | 79 |
| Effaith gymharol polisïau isafbris uned a threthi ar anghydraddoldebau iechyd .....              | 80 |
| Trafodaeth .....                                                                                 | 81 |
| Crynodeb o'r prif ganfyddiadau.....                                                              | 81 |
| Cryfderau a chyfyngiadau .....                                                                   | 82 |
| Diolchiadau.....                                                                                 | 84 |
| Cyfeiriadau.....                                                                                 | 85 |
| Atodiad.....                                                                                     | 89 |

## Mynegai Tablau

|                                                                                                                                        |    |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Tabl 1: Cyflyrau iechyd cysylltiedig ag alcohol sydd wedi'u cynnwys yn SAPM3.5 gyda niferoedd a chostau llinell sylfaen .....          | 19 |
| Tabl 2: Amcangyfrif o niferoedd a chostau troseddau pob blwyddyn .....                                                                 | 22 |
| Tabl 3: Amcangyfrifon o gyfraddau cyflogaeth ac absenoldeb o'r gweithle .....                                                          | 23 |
| Tabl 4: Amcangyfrifon o gyfraddau'r doll am bob uned o alcohol ar sail cyfraddau toll y Deyrnas Unedig o Fawrth 2017 ymlaen .....      | 25 |
| Tabl 5: Llinell sylfaen nodweddion yfwyr yn ôl math o yfwr .....                                                                       | 27 |
| Tabl 6: Llinell sylfaen nodweddion yfwyr yn ôl cwintel MALIC .....                                                                     | 27 |
| Tabl 7: Cyfran yr alcohol a gaiff ei brynu o dan ystod o drothwyon pris yn ôl math o yfwr .....                                        | 30 |
| Tabl 8: Cyfran yr alcohol a gaiff ei werthu o dan ystod o drothwyon pris yn ôl math o ddiod a sianel .....                             | 32 |
| Tabl 9: Amcangyfrif o'r marwolaethau a'r derbyniadau i ysbytai pob blwyddyn a achosir gan alcohol yn ôl cyflwr .....                   | 33 |
| Tabl 10: Amcangyfrif o'r marwolaethau a'r derbyniadau i ysbytai a achosir gan alcohol pob blwyddyn yn ôl math o yfwr .....             | 35 |
| Tabl 11: Amcangyfrif o'r marwolaethau a'r derbyniadau i ysbytai pob blwyddyn a achosir gan alcohol yn ôl cwintel MALIC .....           | 35 |
| Tabl 12: Cyfraniad alcohol i'r holl farwolaethau yn ôl rhyw ac amddifadedd .....                                                       | 36 |
| Tabl 13: Amcangyfrif o linell sylfaen niferoedd troseddau y gellir eu priodoli i alcohol .....                                         | 37 |
| Tabl 14: Amcangyfrif o linell sylfaen absenoldeb o'r gweithle y gellir ei briodoli i alcohol .....                                     | 37 |
| Tabl 15: Amcangyfrif o linell sylfaen costau alcohol i'r gymdeithas yng Nghymru .....                                                  | 38 |
| Tabl 16: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar faint o alcohol a gaiff ei yfed yn ôl grŵp yfwyr .....                        | 38 |
| Tabl 17: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar faint cymedrig yr alcohol a gaiff ei yfed yn ôl amddifadedd .....             | 39 |
| Tabl 18: Amcangyfrif o gyfran effeithiau polisi isafbris uned ar faint o alcohol a gaiff ei yfed ymysg grwpiau dethol .....            | 41 |
| Tabl 19: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar wariant prynwyr yn ôl grŵp yfwyr .....                                        | 42 |
| Tabl 20: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar wariant prynwyr yn ôl amddifadedd .....                                       | 43 |
| Tabl 21: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar refeniw manwerthwyr a'r Trysorlys .....                                       | 44 |
| Tabl 22: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol yn ôl grŵp yfwyr .....            | 46 |
| Tabl 23: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol yn ôl amddifadedd .....           | 48 |
| Tabl 24: Amcangyfrif o gyfran effeithiau polisi isafbris uned ar farwolaethau ymysg grwpiau dethol .....                               | 50 |
| Tabl 25: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar dderbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol yn ôl grŵp yfwyr .....  | 51 |
| Tabl 26: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar dderbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol yn ôl amddifadedd ..... | 53 |
| Tabl 27: Cyfran effeithiau isafbris uned ar dderbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol ymysg grwpiau dethol .....           | 54 |
| Tabl 28: Amcangyfrifon o 'effeithiau rhannol' polisïau isafbris uned ar ganlyniadau iechyd ym mlynnyddoedd 1, 5, 10, 15 ac 20 .....    | 55 |
| Tabl 29: Amcangyfrif o effeithiau cronol polisïau isafbris uned ar ganlyniadau iechyd ar ôl eu rhoi ar waith .....                     | 55 |
| Tabl 30: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar droseddau y gellir eu priodoli i alcohol yn ôl grŵp yfwyr .....               | 56 |

|                                                                                                                                                                      |     |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----|
| Tabl 31: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar absenoldeb o'r gweithle y gellir ei briodoli i alcohol yn ôl grŵp yfwyr .....                               | 58  |
| Tabl 32: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar gostau i'r gymdeithas dros 20 mlynedd ar ôl rhoi'r polisi ar waith.....                                     | 60  |
| Tabl 33: Cyfraddau cyfwerthedig y doll.....                                                                                                                          | 62  |
| Tabl 34: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned a threthi ar faint o alcohol a gaiff ei yfed yn ôl math o yfwr.....                                            | 64  |
| Tabl 35: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned a threthi ar faint o alcohol a gaiff ei yfed yn ôl amddifadedd .....                                           | 65  |
| Tabl 36: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned a threthi ar wariant yn ôl math o yfwr .....                                                                   | 66  |
| Tabl 37: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned a threthi ar wariant yn ôl amddifadedd .....                                                                   | 67  |
| Tabl 38: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned a threthi ar refeniw i'r Trysorlys pob blwyddyn.....                                                           | 70  |
| Tabl 39: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned a threthi ar refeniw manwerthwyr pob blwyddyn.....                                                             | 71  |
| Tabl 40: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned a threthi ar farwolaethau yn ôl grŵp yfwyr                                                                     | 72  |
| Tabl 41: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned a threthi ar farwolaethau yn ôl amddifadedd .....                                                              | 73  |
| Tabl 42: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned a threthi ar nifer y derbyniadau i ysbytai yn ôl math o yfwr.....                                              | 75  |
| Tabl 43: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned a threthi ar nifer y derbyniadau i ysbytai yn ôl amddifadedd .....                                             | 76  |
| Tabl 44: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned a threthi ar droseddau .....                                                                                   | 78  |
| Tabl 45: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned a threthi ar absenoldeb o'r gweithle.....                                                                      | 79  |
| Tabl 46: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned a threthi ar anghydraddoldebau iechyd ....                                                                     | 80  |
| Tabl 47: Diwrnodau gwaith a diwrnodau o absenoldeb pob blwyddyn yn ôl cwintel incwm .....                                                                            | 84  |
| Tabl 48: Amcangyfrif o nifer y marwolaethau a derbyniadau i ysbytai pob blwyddyn a achosir gan alcohol yn ôl grŵp yfwyr a chwintel amddifadedd .....                 | 89  |
| Tabl 49: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar faint o alcohol a gaiff ei yfed yn ôl grŵp yfwyr ac amddifadedd .....                                       | 90  |
| Tabl 50: Cyfran o'r lleihad cyfan ym maint yr alcohol a gaiff ei yfed o dan bolisïau isafbris uned ymysg is-grwpiau o'r boblogaeth.....                              | 91  |
| Tabl 51: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar wariant gan brynwyr yn ôl grŵp yfwyr ac amddifadedd .....                                                   | 92  |
| Tabl 52: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol yn ôl grŵp yfwyr ac amddifadedd .....                   | 102 |
| Tabl 53: Cyfran y lleihad cyfan mewn marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol o dan bolisïau isafbris uned ymysg is-grwpiau o'r boblogaeth .....                  | 103 |
| Tabl 54: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar dderbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol yn ôl grŵp yfwyr ac amddifadedd .....                 | 104 |
| Tabl 55: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned a threthi ar faint o alcohol a gaiff ei yfed yn ôl grŵp yfwyr ac amddifadedd .....                             | 105 |
| Tabl 56: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned a threthi ar wariant yn ôl grŵp yfwyr ac amddifadedd .....                                                     | 106 |
| Tabl 57: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned a threthi ar nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol yn ôl grŵp yfwyr ac amddifadedd .....         | 107 |
| Tabl 58: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned a threthi ar nifer y derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol yn ôl grŵp yfwyr ac amddifadedd..... | 109 |



## Mynegai Ffigurau

|                                                                                                                                                       |    |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Ffigur 1: Dosbarthiadau cronol prisiau a delir am alcohol yn ôl sianel a math o ddiod (LCFS 2010-15 a Nielsen 2016).....                              | 17 |
| Ffigur 2: Amcangyfrif o'r cyfraddau y caiff codiadau yn y doll eu trosglwyddo i brisiau alcohol yr allfasnach, wedi'i gymryd o Ally et al.(2014)..... | 18 |
| Ffigur 3: Dosbarthiad y boblogaeth, yr alcohol a gaiff ei yfed a'r gwariant ar alcohol yn ôl math o yfwr.....                                         | 28 |
| Ffigur 4: Dewisiadau o ran diodydd yn ôl math o yfwr.....                                                                                             | 28 |
| Ffigur 5: Dewisiadau o ran sianel yn ôl math o yfwr.....                                                                                              | 29 |
| Ffigur 6: Prisiau cyfartalog a delir yn ôl math o ddiod ac yfwr.....                                                                                  | 29 |
| Ffigur 7: Prisiau cyfartalog a delir yn ôl math o ddiod a chwintel MALIC.....                                                                         | 30 |
| Ffigur 8: Cyfran yr alcohol a gaiff ei brynu o dan ystod o drothwyon pris yn ôl math o yfwr.....                                                      | 31 |
| Ffigur 9: Cyfran o alcohol yr allfasnach a gaiff ei werthu o dan ystod o drothwyon pris yn ôl math o ddiod.....                                       | 32 |
| Ffigur 10: Achosion cyfrannol marwolaethau a derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol (ac eithrio cyflyrau amddiffynnol).....             | 34 |
| Ffigur 11: Amcangyfrif o'r marwolaethau a achosir gan alcohol pob blwyddyn yn ôl grŵp yfwyr a chwintel MALIC.....                                     | 36 |
| Ffigur 12: Effeithiau a fodelir polisïau isafbris uned ar faint o alcohol a gaiff ei yfed yn ôl grŵp yfwyr.....                                       | 39 |
| Ffigur 13: Effeithiau a fodelir polisïau isafbris uned ar faint o alcohol a gaiff ei yfed yn ôl amddifadedd.....                                      | 40 |
| Ffigur 14: Dosbarthiad lleihad ym maint yr alcohol a gaiff ei yfed o dan bolisïau isafbris uned ar draws grwpiau yfwyr.....                           | 40 |
| Ffigur 15: Dosbarthiad lleihad ym maint yr alcohol a gaiff ei yfed o dan bolisïau isafbris uned ar draws cwintelau MALIC.....                         | 41 |
| Ffigur 16: Effeithiau a fodelir polisïau isafbris uned ar wariant prynwyr yn ôl grŵp yfwyr.....                                                       | 42 |
| Ffigur 17: Effeithiau a fodelir polisïau isafbris uned ar wariant prynwyr yn ôl amddifadedd.....                                                      | 43 |
| Ffigur 18: Effeithiau a fodelir polisïau isafbris uned ar y refeniw i'r Trysorlys.....                                                                | 45 |
| Ffigur 19: Effeithiau a fodelir polisïau isafbris uned ar y refeniw i fanwerthwyr.....                                                                | 45 |
| Ffigur 20: Effeithiau a fodelir polisïau isafbris uned ar farwolaethau yn ôl grŵp yfwyr.....                                                          | 47 |
| Ffigur 21: Effeithiau a fodelir polisïau isafbris uned ar farwolaethau yn ôl amddifadedd.....                                                         | 49 |
| Ffigur 22: Dosbarthiad lleihad yn nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol o dan bolisïau isafbris uned ar draws grwpiau yfwyr.....        | 49 |
| Ffigur 23: Dosbarthiad lleihad yn nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol o dan bolisïau isafbris uned ar draws cwintelau MALIC.....      | 50 |
| Ffigur 24: Effeithiau a fodelir polisïau isafbris uned ar dderbyniadau i ysbytai yn ôl grŵp yfwyr.....                                                | 52 |
| Ffigur 25: Effeithiau a fodelir polisïau isafbris uned ar dderbyniadau i ysbytai yn ôl amddifadedd.....                                               | 54 |
| Ffigur 26: Effeithiau a fodelir polisïau isafbris uned ar droseddau yn ôl grŵp yfwyr.....                                                             | 57 |
| Ffigur 27: Effeithiau a fodelir polisïau isafbris uned ar absenoldeb o'r gweithle yn ôl grŵp yfwyr.....                                               | 59 |
| Ffigur 28: Effeithiau a fodelir polisïau isafbris uned ar gostau i'r gymdeithas.....                                                                  | 61 |
| Ffigur 29: Newid yn y pris cymedrig o dan bolisïau isafbris uned a threthi yn ôl math o ddiod a sianel.....                                           | 63 |
| Ffigur 30: Effaith gymharol isafbris uned a threthi ar faint o alcohol a gaiff ei yfed yn ôl math o yfwr.....                                         | 64 |
| Ffigur 31: Effaith gymharol polisïau isafbris uned a threthi ar faint o alcohol a gaiff ei yfed yn ôl amddifadedd.....                                | 65 |

|                                                                                                                                                                               |    |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Ffigur 32: Dosbarthiad lleihad ym maint yr alcohol a gaiff ei yfed ar draws y boblogaeth yn achos isafbris uned o 50c a chodi trethi 34.06% .....                             | 66 |
| Ffigur 33: Effaith gymharol polisïau isafbris uned a threthi ar wariant yn ôl math o yfwr .....                                                                               | 67 |
| Ffigur 34: Effaith gymharol polisïau isafbris uned a threthi ar wariant yn ôl amddifadedd .....                                                                               | 68 |
| Ffigur 35: Effaith gymharol polisïau isafbris uned a threthi ar wariant yn ôl math o yfwr ac amddifadedd .....                                                                | 69 |
| Ffigur 36: Effaith gymharol polisïau isafbris uned a threthi ar dderbyniadau i'r Trysorlys .....                                                                              | 70 |
| Ffigur 37: Effaith gymharol polisïau isafbris uned a threthi ar refeniw i fanwerthwyr .....                                                                                   | 71 |
| Ffigur 38: Effaith gymharol polisïau isafbris uned a threthi ar farwolaethau yn ôl math o yfwr ...                                                                            | 72 |
| Ffigur 39: Effaith gymharol polisïau isafbris uned a threthi ar farwolaethau yn ôl amddifadedd ..                                                                             | 74 |
| Ffigur 40: Dosbarthiad lleihad yn nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol ar draws y boblogaeth yn achos isafbris uned o 50c a chodi trethi 34.06% .....          | 74 |
| Ffigur 41: Effaith gymharol polisïau isafbris uned a threthi ar nifer y derbyniadau i ysbytai yn ôl math o yfwr .....                                                         | 75 |
| Ffigur 42: Effaith gymharol polisïau isafbris uned a threthi ar nifer y derbyniadau i ysbytai yn ôl amddifadedd .....                                                         | 77 |
| Ffigur 43: Dosbarthiad lleihad yn nifer y derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol ar draws y boblogaeth yn achos isafbris uned o 50c a chodi trethi 34.06% ..... | 77 |
| Ffigur 44: Effaith gymharol polisïau isafbris uned a threthi ar droseddau.....                                                                                                | 79 |
| Ffigur 45: Effaith gymharol polisïau isafbris uned a threthi ar absenoldeb o'r gweithle .....                                                                                 | 80 |
| Ffigur 46: Effaith gymharol polisïau isafbris uned a threthi ar anghydraddoldebau iechyd .....                                                                                | 81 |

# Crynodeb Gweithredol

## Prif Gasgliadau

Mae amcangyfrifon o fersiwn wedi'i diweddaru o'r addasiad o Fodel Polisi Alcohol Sheffield i Gymru yn awgrymu:

1. Byddai isafbris uned wedi'i osod rhwng 35 a 70c yn effeithiol wrth leihau faint o alcohol a gaiff ei yfed gan yfwyr peryglus ac, yn arbennig, yfwyr niweidiol. Byddai'r lleihad hwn o ran faint o alcohol a gaiff ei yfed yn arwain at leihad mewn marwolaethau a derbyniadau i ysbytai cysylltiedig ag alcohol. Mae lefelau uwch isafbris uned yn arwain at fwy o leihad ym maint yr alcohol a gaiff ei yfed a mewn niwed.
2. Byddai yfwyr cymedrol yn gweld effaith fach yn unig ar yr alcohol y byddent yn ei yfed ac ar eu gwariant ar ôl cyflwyno isafbris uned. Mae hyn oherwydd eu bod yn tueddu i brynu alcohol y byddai ei bris yn codi ychydig bach neu ddim o gwbl o dan y polisi. Mae lefelau uwch isafbris uned yn cael effeithiau mwy ar faint o alcohol mae yfwyr cymedrol yn ei yfed.
3. Byddai effaith fwyaf isafbris uned ar yr yfwyr niweidiol mwyaf difreintiedig. Byddai mwy o effaith ar yfwyr difreintiedig sy'n yfed ar lefelau cymedrol nag ar yfwyr cymedrol eraill, ond mae'r effaith gyffredinol ar faint o alcohol maent yn ei yfed ac ar eu gwariant yn fach o hyd.
4. Byddai angen codiadau mawr mewn trethi ar alcohol i gael yr un effaith ag isafbris uned o 50c. Yn benodol:
  - a. Byddai codi'r dreth 33% yn sicrhau'r un lleihad o ran **faint o alcohol a gaiff ei yfed gan yfwyr peryglus a niweidiol**;
  - b. Byddai codi'r dreth 48% yn sicrhau'r un lleihad o ran **faint o alcohol a gaiff ei yfed gan yfwyr niweidiol**;
  - c. Byddai codi'r dreth 34% yn sicrhau'r un lleihad yn **nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol ymysg yfwyr peryglus a niweidiol**;
  - d. Byddai codi'r dreth 47% yn sicrhau'r un lleihad yn **nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol ymysg yfwyr niweidiol**.
5. Byddai effeithiau'r codiadau uchod mewn trethi yn cael eu dosbarthu'n wahanol ar draws y boblogaeth o gymharu ag isafbris uned o 50c. Mae'r codiadau uchod mewn trethi i gyd yn arwain at leihad mwy o ran faint o alcohol a gaiff ei yfed a chynnydd mwy yn y gwariant ar alcohol ymysg yfwyr cymedrol ac yfwyr *llai* difreintiedig. O ran yfwyr *mwy* difreintiedig, mae'r codiadau uchod mewn trethi yn dal i arwain at gynnydd mwy yn y gwariant ar alcohol ond yn arwain at leihad llai o ran faint o alcohol mae'r grŵp hwn yn ei yfed.
6. Mae'r patrwm hwn o newidiadau ym maint yr alcohol a gaiff ei yfed yn golygu bod y lleihad mewn niwed cysylltiedig ag alcohol wedi'i ganoli llai mewn grwpiau difreintiedig nag a fyddai'n wir yn achos isafbris uned o 50c. Felly, bydd y lleihad mewn anghydraddoldebau iechyd y gellir eu priodoli i alcohol yn llai ar gyfer y codiadau uchod mewn trethi nag ar gyfer isafbris uned o 50c.

## Nodau'r ymchwil

Comisiynwyd yr adroddiad hwn ym mis Mehefin 2017 gan Lywodraeth Cymru. Mae'n defnyddio setiau data sydd newydd ddod ar gael i ddiweddaru ein dadansoddiadau a gyhoeddwyd o'r blaen o effaith bosibl gwahanol lefelau isafbris uned am alcohol yng Nghymru ar y boblogaeth ac is-grwpiau o'r boblogaeth. Yn benodol, mae data sydd newydd ddod ar gael ar faint yr alcohol a gaiff ei yfed, o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17, wedi cael eu cynnwys. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys dadansoddiadau newydd o'r codiadau mewn trethi ar alcohol y

mae eu hangen i gael yr un effaith ar ganlyniadau allweddol ag isafbris uned o 50c. Yn olaf, mae'n edrych ar sut mae effeithiau isafbris uned a chodiadau mewn trethi yn cael eu dosbarthu'n wahanol ar draws is-grwpiau allweddol o'r boblogaeth.

## Crynodeb o ganfyddiadau'r model

### **Llinell sylfaen yfed alcohol, niwed cysylltiedig a phrynu alcohol yng Nghymru**

M1. Mae 20% o boblogaeth oedolion Cymru'n ymatal rhag yfed alcohol, mae 58% yn yfwyr cymedrol, mae 19% yn yfwyr peryglus ac mae 3% yn yfwyr niweidiol. Mae'r 22% o'r boblogaeth sy'n yfwyr peryglus neu niweidiol yn yfed 75% o'r holl alcohol a gaiff ei yfed gan boblogaeth Cymru. Mae'r 3% sy'n yfwyr niweidiol yn yfed 27% o'r holl alcohol a gaiff ei yfed gan boblogaeth Cymru.

M2. Mae yfwyr cymedrol yn yfed 211 o unedau o alcohol pob blwyddyn ar gyfartaledd o gymharu â 1,236 o unedau i yfwyr peryglus a 3,924 o unedau i yfwyr niweidiol. Mae yfwyr cymedrol yn gwario £276 pob blwyddyn ar gyfartaledd ar yr alcohol hwn o gymharu â £1,209 i yfwyr peryglus a £2,882 i yfwyr niweidiol.

M3. Mae'r gyfradd ymatal yn uwch yn y cwintel mwyaf difreintiedig o boblogaeth Cymru (26.7%) nag yn y cwintel lleiaf difreintiedig (13.9%). Fodd bynnag, mae faint o alcohol a gaiff ei yfed pob blwyddyn ymysg yfwyr yn uwch yn y cwintel lleiaf difreintiedig a'r cwintel lleiaf difreintiedig ond un (648 a 649 o unedau pob blwyddyn yn y drefn honno) nag yn y cwintelau mwyaf difreintiedig (546 o unedau pob blwyddyn).

M4. Mae'r boblogaeth yn prynu 37% o'i halcohol am lai na 50c yr uned ac mae 15% yn ei brynu am lai na 40c yr uned. Mae yfwyr trymach yn fwy tebygol o brynu alcohol sy'n cael ei werthu am bris is na'r trothwyon hyn. Mae yfwyr cymedrol, peryglus a niweidiol yn prynu 22%, 36% a 46%, yn y drefn honno, o'u halcohol am lai na 50c yr uned a 9%, 14% a 19% o'u halcohol am lai na 40c yr uned.

M5. Mae alcohol sy'n cael ei werthu am lai na 50c yr uned yn cael ei werthu yn yr allfasnach yn bennaf. Dim ond 2% o alcohol y fewnfasnach sy'n cael ei werthu am lai na 50c yr uned o gymharu â 47% o alcohol yr allfasnach. O gymharu ar draws mathau o ddiodydd yr allfasnach, mae 62% o gwrw, 73% o seidr, 32% o win a 60% o wirodydd yn cael eu gwerthu am lai na 50c yr uned. Hefyd yn yr allfasnach, mae 19% o'r holl alcohol, 34% o gwrw, 56% o seidr, 8% o win a 19% o wirodydd yn cael eu gwerthu am lai na 40c yr uned.

M6. Amcangyfrifir bod 777 o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn yng Nghymru a 35,637 o dderbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol. Clefyd yr afu a mathau o ganser sy'n gyfrifol am y gyfran fwyaf o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol. Pwysedd gwaed uchel ac anhwylderau meddyliol neu ymddygiadol oherwydd alcohol sy'n gyfrifol am y gyfran fwyaf o dderbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol.

M7. Mae marwolaethau a derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol wedi'u crynhoi ymysg yfwyr peryglus ac, yn arbennig, yfwyr niweidiol, ac yn arbennig yfwyr niweidiol sy'n fwyaf difreintiedig. Yn y cwintel mwyaf difreintiedig, gellir priodoli 5.0% o'r holl farwolaethau i alcohol, o gymharu â 3.2% yn y cwintel mwyaf difreintiedig ond un a 2.2% yn y cwintel lleiaf difreintiedig.

M9. Amcangyfrifir y gellir priodoli 88,908 o droseddau i alcohol pob blwyddyn. Amcangyfrifir bod 42,440 o'r rhain yn cael eu cyflawni gan yfwyr peryglus o gymharu â 38,057 gan yfwyr cymedrol ac 8,411 gan yfwyr niweidiol.

### **Effeithiau a fodelir isafbris uned ar faint o alcohol a gaiff ei yfed, ar wariant ac ar refeniw**

M10. Byddai cyflwyno isafbris uned o 50c yng Nghymru'n gysylltiedig â lleihad amcangyfrifedig o 3.6% o ran faint o alcohol a gâi ei yfed, sy'n gyfwerth â 22.0 uned am bob yfwr pob blwyddyn. Mae'r amcangyfrifon o ran lleihad ym maint yr alcohol a gâi ei yfed ar gyfer lefelau eraill o isafbris uned yn amrywio o 0.8% (4.9 uned am bob yfwr pob blwyddyn) ar gyfer isafbris uned o 35c i 10.7% (65.4 uned am bob yfwr pob blwyddyn) ar gyfer isafbris uned o 70c. Yng ngweddill y crynodeb gweithredol hwn, rydym yn canolbwyntio ar isafbris uned o 50c, gan mai hon oedd y lefel enghreifftiol a ddefnyddiwyd a ffocws llawer o'r drafodaeth bolisi. Gellir gweld canlyniadau llawn ar gyfer lefelau eraill isafbris uned yn y prif adroddiad ac, yn gyffredinol, mae'r effeithiau polisi'n fwy ar gyfer isafbrisiau uwch.

M11. Amcangyfrifir y byddai'r lleihad mwyaf o ran faint o alcohol a gâi ei yfed yn achos isafbris uned o 50c i'w weld ymysg yfwyr niweidiol (6.8%, 268.7 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn) ac yfwyr peryglus (3.0%, 37.4 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn). Byddai'r effeithiau lleiaf i'w gweld ymysg yfwyr cymedrol (1.1%, 2.4 uned am bob yfwr pob blwyddyn).

M12. Amcangyfrifir hefyd y byddai'r lleihad mwyaf o ran faint o alcohol a gâi ei yfed yn achos isafbris uned o 50c i'w weld ymysg y cwintel mwyaf difreintiedig o yfwyr (12.6%, 68.7 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn) gyda llai o effaith ymysg y cwintel mwyaf difreintiedig ond un (4.1%, 23.9 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn) ac y byddai effaith fach ymysg y cwintel lleiaf difreintiedig (0.3%, 1.9 uned am bob yfwr pob blwyddyn).

M13. O'r holl leihad yn yr unedau a gâi eu hyfed yn achos isafbris uned o 50c, byddai 52% ymysg yfwyr niweidiol, 40% ymysg yfwyr peryglus ac 8% ymysg yfwyr cymedrol. Yfwyr o'r cwintel mwyaf difreintiedig fyddai'n gyfrifol am 50% o'r lleihad yn yr unedau a gâi eu hyfed; fodd bynnag, byddai tua dau draean o hyn ymysg yfwyr niweidiol yn y cwintel hwn.

M14. Yn dilyn y newidiadau hyn ym maint yr alcohol a gâi ei yfed, amcangyfrifir y byddai gwariant ar alcohol yn cynyddu 1.4% neu £8 am bob yfwr pob blwyddyn yn achos isafbris uned o 50c. Byddai'r cynnydd mwyaf yn y gwariant ymysg yfwyr niweidiol (1.7%, £48 am bob yfwr pob blwyddyn) gyda chynnydd llai ymysg yfwyr peryglus (1.5%, £18 am bob yfwr pob blwyddyn) ac yfwyr cymedrol (1.1%, £3 am bob yfwr pob blwyddyn).

M15. Amcangyfrifir y byddai'r rheiny yn y cwintel mwyaf difreintiedig yn lleihau eu gwariant ar alcohol 1.5% neu £7 am bob yfwr pob blwyddyn, yn dilyn y newidiadau uchod ym maint yr alcohol a gâi ei yfed. Amcangyfrifir y byddai yfwyr mewn cwintelau amddifadedd eraill yn cynyddu eu gwariant rhwng £9 a £13 am bob yfwr pob blwyddyn.

M16. Amcangyfrifir y byddai'r refeniw blyneddol i'r Trysorlys o dollau a TAW ar alcohol yng Nghymru yn gostwng 0.4% neu £1.9 miliwn ar ôl cyflwyno isafbris uned o 50c. Amcangyfrifir y byddai'r refeniw blyneddol i fanwerthwyr o werthiannau alcohol yn codi 9.9% neu £16.8 miliwn yn yr allfasnach a 0.2% neu £1 miliwn yn y fewnfasnach.

### **Effeithiau a fodelir isafbris uned ar niwed cysylltiedig ag alcohol**

M17. Amcangyfrifir y byddai isafbris uned o 50c yn arwain at 66 neu 8.5% yn llai o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn a 1,281 neu 3.6% yn llai o dderbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn.

M18. O'r holl leihad yn nifer y marwolaethau a fyddai'n deillio o isafbris uned o 50c, amcangyfrifir y byddai 69% ymysg yfwyr niweidiol, y byddai 57% ymysg y cwintel mwyaf difreintiedig ac y byddai 45% ymysg yfwyr niweidiol yn y cwintel mwyaf difreintiedig. Y ffigurau cyfatebol ar gyfer lleihad yn nifer y derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol yw 44%,

49% a 24%; gan awgrymu y byddai'r lleihad yn nifer y derbyniadau i ysbytai wedi'i grynhoi ymysg y grwpiau risg uchaf o hyd, ond y byddai wedi'i ddosbarthu rhywfaint yn ehangach ar draws y boblogaeth.

M19. Pob blwyddyn, amcangyfrifir bod yna 46.4 yn fwy o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol am bob 100,000 o yfwyr yn y cwintel mwyaf difreintiedig yng Nghymru nag yn y cwintel lleiaf difreintiedig. Amcangyfrifir y byddai'r patrwm uchod o leihad yn nifer y marwolaethau yn achos isafbris uned o 50c yn lleihau'r bwlch anghydraddoldeb hwn 26% i 34.2 o farwolaethau ychwanegol am bob 100,000 o yfwyr pob blwyddyn.

M20. Amcangyfrifir y byddai isafbris uned o 50c yn arwain at 2.4% neu 2,093 yn llai o droseddau y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn. Byddai'r lleihad mwyaf mewn troseddau a gyflawnir gan yfwyr peryglus sef 3.0% neu 1,277 yn llai o droseddau pob blwyddyn, o gymharu ag 1.7% neu 657 yn llai o droseddau pob blwyddyn gan yfwyr cymedrol ac 1.9% neu 159 yn llai o droseddau pob blwyddyn gan yfwyr niweidiol.

M21. Amcangyfrifir y byddai nifer y diwrnodau gwaith a gâi eu colli oherwydd absenoldeb o'r gweithle y gellir ei briodoli i alcohol yn gostwng 1.9% neu 9,808 o ddiwrnodau pob blwyddyn yn achos isafbris uned o 50c. Byddai'r lleihad mwyaf yn nifer y diwrnodau o absenoldeb ymysg yfwyr peryglus sef 2.7% neu 6,138 yn llai o ddiwrnodau o absenoldeb pob blwyddyn, o gymharu ag 1.2% neu 2,621 yn llai o ddiwrnodau o absenoldeb pob blwyddyn ymysg yfwyr cymedrol ac 1.6% neu 1,049 yn llai o ddiwrnodau o absenoldeb pob blwyddyn ymysg yfwyr niweidiol.

M22. Cyfanswm y lleihad wedi'i ddisgowntio yng nghostau alcohol i'r gymdeithas dros 20 mlynedd a fyddai'n deillio o'r lleihad hwn mewn niwed y gellir ei briodoli i alcohol yw £783 miliwn neu 4.7% o ostyngiad yng nghyfanswm y costau. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 4.6% neu £91 miliwn mewn costau gofal iechyd uniongyrchol, gostyngiad o 7.5% neu £490 miliwn yn y blynyddoedd o fywyd wedi'u haddasu yn ôl ansawdd (QALY) colledig, gostyngiad o 2.5% neu £188 miliwn yng nghostau uniongyrchol a chostau cysylltiedig â QALY troseddau, a gostyngiad o 2.1% neu £14 miliwn yn y costau cysylltiedig ag absenoldeb o'r gweithle.

### **Cymharu effeithiau a fodelir isafbris uned a chodiadau mewn trethi ar alcohol**

M23. Amcangyfrifir y byddai isafbris uned o 50c yn achosi i yfwyr peryglus a niweidiol yfed 73 yn llai o unedau am bob yfwr pob blwyddyn ar gyfartaledd. Amcangyfrifir y byddai angen codi trethi ar alcohol 33% i gael yr un effaith. Byddai angen 34%, 47% a 48% o godiad mewn trethi, yn y drefn honno, i gael yr un effeithiau ag isafbris uned o 50c ar faint o alcohol a gâi ei yfed gan yfwyr niweidiol yn unig, marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol ymysg yfwyr peryglus a niweidiol, a marwolaethau y gellir eu priodoli alcohol ymysg yfwyr niweidiol yn unig.

M24. Amcangyfrifir y byddai'r codiadau uchod mewn trethi ar alcohol yn cael effaith fwy ar faint yr alcohol a gâi ei yfed gan yfwyr cymedrol nag isafbris uned o 50c. Amcangyfrifir y byddai isafbris uned o 50c yn lleihau'r maint o alcohol a gâi ei yfed gan yfwyr cymedrol 1.1% ond amcangyfrifir y byddai codiadau mewn trethi o 33%, 34%, 46% a 47% yn lleihau'r maint o alcohol a gâi ei yfed gan yfwyr cymedrol 3.1%, 3.2%, 4.5% a 4.6% yn y drefn honno. Fodd bynnag, bach yw maint absoliwt y lleihad yn y maint o alcohol a gâi ei yfed o hyd, sef rhwng 7 a 10 uned am bob yfwr pob blwyddyn o gymharu â 2 uned am bob yfwr pob blwyddyn yn achos isafbris uned o 50c.

M25. Mewn cyferbyniad, amcangyfrifir y byddai'r codiadau uchod mewn trethi yn cael effaith lai ar faint yr alcohol a gâi ei yfed gan yr yfwyr mwyaf difreintiedig nag isafbris uned o 50c. Amcangyfrifir y byddai isafbris uned o 50c yn lleihau'r maint o alcohol a gâi ei yfed gan yr yfwyr

mwyaf difreintiedig 12.6% tra yr amcangyfrifir y byddai codiadau mewn trethi o 33%, 34%, 46% a 47% yn lleihau'r maint o alcohol a gâi ei yfed gan yfwyr cymedrol 6.9%, 7.1%, 9.8% a 10.2% yn y drefn honno. Mae maint absoliwt y lleihad ym maint yr alcohol a gâi ei yfed yn amrywio rhwng 37 a 56 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn o gymharu â 69 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn yn achos isafbris uned o 50c.

M26. Amcangyfrifir y byddai'r codiadau uchod mewn trethi ar alcohol yn arwain at gynnydd mwy yn y gwariant ar alcohol ar draws yr holl grwpiau yfwyr, ar ôl newidiadau ym maint yr alcohol a gâi ei yfed, nag isafbris uned o 50c. Mae'r amcangyfrifon o'r cynnydd yn y gwariant yn achos isafbris uned o 50c yn amrywio rhwng 1.1% neu £3 ac 1.7% neu £48. Ar gyfer y codiadau mewn trethi, mae'r newidiadau a amcangyfrifir yn y gwariant yn amrywio rhwng 5.7% neu £16 o gynnydd a 10.5% neu £303 o gynnydd. Mae'r un peth yn wir ar draws yr holl grwpiau amddifadedd, wrth amcangyfrif y byddai isafbris uned yn newid y gwariant rhwng 1.5% neu £7 o ostyngiad ac 1.9% neu £13 o gynnydd, o gymharu â rhwng 4.8% neu £21 a 9.6% neu £72 o gynnydd<sup>†</sup>.

M27. Amcangyfrifir y byddai'r codiadau uchod mewn trethi ar alcohol yn arwain at rhwng 21.0% neu £101 miliwn a 29.8% neu £144 miliwn o gynnydd yn y refeniw i'r Trysorlys pob blwyddyn. Mae hyn yn cymharu â 0.4% neu £1.9 miliwn o ostyngiad yn y refeniw yn achos isafbris uned o 50c.

M28. Amcangyfrifir y byddai'r effaith ar y refeniw i fanwerthwyr allfasnach yn amrywio rhwng 10.5% neu £18 miliwn o ostyngiad a 15.4% neu £26 miliwn o ostyngiad. Mae hyn yn cymharu â 9.9% neu £17 miliwn o gynnydd yn achos isafbris uned o 50c. Ar gyfer manwerthwyr mewnfasnach, amcangyfrifir y byddai effaith y newidiadau mewn trethi ar refeniw yn amrywio rhwng 2.2% neu £11 miliwn o ostyngiad a 3.2% neu £16 miliwn o ostyngiad. Mae hyn yn cymharu â 0.2% neu £1 miliwn o gynnydd yn achos isafbris uned o 50c.

M29. Byddai'r lleihad yn nifer y marwolaethau a derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol yn deillio o'r codiadau uchod mewn trethi yn dal i fod wedi'u crynhoi ymysg y rhai mwyaf difreintiedig ac yfwyr niweidiol ond i raddau llai nag yn achos isafbris uned o 50c. Mae hyn yn adlewyrchu patrwm y lleihad o ran faint o alcohol a gâi ei yfed a ddisgrifir uchod. O ganlyniad, byddai'r bwlch anghydraddoldeb yn nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol rhwng y grwpiau mwyaf a lleiaf difreintiedig yn gostwng o 46.4 o farwolaethau ychwanegol am bob 100,000 o yfwyr yn y grŵp mwyaf difreintiedig pob blwyddyn ar linell sylfaen i 34.2 o farwolaethau ychwanegol yn achos isafbris uned o 50c, ond yn achos y codiadau mewn trethi dim ond i ffigwr rhwng 39.3 a 41.5 fyddai'r gostyngiad yn nifer y marwolaethau ychwanegol. Mae hyn yn awgrymu y byddai anghydraddoldebau iechyd y gellir eu priodoli i alcohol yn gostwng mwy yn achos isafbris uned o 50c nag yn achos y codiadau uchod mewn trethi.

---

<sup>†</sup> Noder ei bod yn bosibl na fyddai'r newid cymharol mwyaf (neu leiaf) yn y gwariant ymysg yr un grŵp â'r newid absoliwt mwyaf (neu leiaf) yn y gwariant.

## Cyflwyniad

Ym mis Mehefin 2017, cafodd Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield (SARG) ym Mhrifysgol Sheffield ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i fodelu effaith bosibl polisi Isafbris Uned am alcohol a sut y gallai hyn gymharu â chodi'r doll ar alcohol. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar waith modelu blaenorol a wnaethpwyd gan y Grŵp yn 2014<sup>1</sup> ac yn golygu addasu Model Polisi Alcohol Sheffield v3.5 (SAPM) i Gymru. Mae Model Polisi Alcohol Sheffield yn offeryn gwerthuso polisi alcohol sydd wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth i edrych ar effaith bosibl polisiâu pris alcohol, gan gynnwys trethi a hefyd isafbris uned<sup>2,3</sup>, cyfyngiadau ar argaeledd a marchnata<sup>4</sup> a chyflawni rhaglenni Sgrinio ac Ymyriadau Byr<sup>5,6</sup> ar amrywiaeth fawr o ganlyniadau sy'n berthnasol i wneuthurwyr polisi. Mae'r canlyniadau a asesir yn cynnwys amcangyfrif o'r effeithiau ar faint o alcohol a gaiff ei yfed, refeniw i drysorlysoedd, marwolaethau, derbyniadau i ysbytai, costau gofal iechyd, niferoedd a chostau troseddau a chynhyrchiant yn y gweithle. Mae fersiynau o Fodel Polisi Alcohol Sheffield wedi cael eu datblygu a'u haddasu i amrywiaeth fawr o wledydd gan gynnwys Lloegr<sup>7,8</sup>, Cymru<sup>1</sup>, yr Alban<sup>9,10</sup>, Gogledd Iwerddon<sup>11</sup>, Gweriniaeth Iwerddon<sup>12</sup>, Canada<sup>13</sup> a'r Eidal<sup>14</sup>.

Y cwestiynau ymchwil penodol i gael sylw yn y dadansoddiad newydd hwn i Gymru yw:

1. Defnyddio data newydd a dulliau modelu newydd i ddarparu amcangyfrifon newydd o effaith isafbris uned (ar lefelau sy'n codi fesul 5c o 35c i 70c) ar ganlyniadau o ran faint o alcohol a gaiff ei yfed, gwariant, iechyd, troseddu a'r gweithle, a sut y bydd yr effeithiau hyn yn amrywio ar draws gwahanol lefelau yfed ac amddifadedd.
2. Pennu'r cynnydd cyfrannol yn y doll ar alcohol y byddai ei angen i gyflawni'r un lleihad o ran faint o alcohol a gaiff ei yfed gan yfwyr peryglus a niweidiol gyda'i gilydd (y rheiny sy'n yfed mwy na'r hyn a argymhellir yng nghanllawiau presennol y Deyrnas Unedig) ac yfwyr niweidiol yn unig (y rheiny sy'n yfed mwy na 50 o unedau'r wythnos i ddynion a 35 o unedau'r wythnos i fenywod) ag isafbris uned o 50c, a dangos sut y mae effeithiau'r ddau bolisi hyn (isafbris uned a chodi'r doll) wedi'u dosbarthu'n wahanol ar draws y boblogaeth.
3. Pennu'r cynnydd cyfrannol yn y doll ar alcohol y byddai ei angen i gyflawni'r un lleihad yn nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol ymysg yfwyr peryglus a niweidiol ac yfwyr niweidiol yn unig ag isafbris uned o 50c, a dangos y gwahaniaethau o ran dosbarthiad yr effeithiau ar draws y boblogaeth.

Cafodd adroddiad byr yn rhoi canlyniadau dechreuol o'r gwaith modelu hwn, gan ganolbwyntio ar effaith polisi enghreifftiol dangosol isafbris uned o 50c ar ganlyniadau iechyd yn unig, ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2017<sup>15</sup>. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r dadansoddiad terfynol gan roi sylw i'r tri chwestiwn ymchwil a nodir uchod.



# Dulliau

## Trosolwg o'r model

Mae Model Polisi Alcohol Sheffield yn offeryn economaidd ac epidemiolegol penderfynedig i werthuso polisi, sy'n gweithredu fel cyfres o fodelau cysylltiedig i ymchwilio i effaith bosibl amrywiaeth o opsiynau polisi alcohol ar sbectrwm eang o fesuriadau canlyniadau. Yn hollbwysig, mae Model Polisi Alcohol Sheffield hefyd yn darparu amcangyfrifon o ddosbarthiad effeithiau polisi ar draws grwpiau gwahanol yn y boblogaeth.

Yn gryno, mae Model Polisi Alcohol Sheffield yn gweithredu trwy'r camau canlynol wrth fodelu effaith polisi seiliedig ar bris:

1. Modelu dosbarthiad presennol yfed alcohol, dewisiadau o ran mathau gwahanol o ddiodydd alcoholig a phrisiau a delir
2. Modelu effaith polisi ar ddosbarthiad prisiau alcohol
3. Modelu effaith y newidiadau hyn ar faint o alcohol a gaiff ei yfed yn y fewnfasnach a'r allfasnach<sup>‡</sup>
4. Modelu effaith y newidiadau hyn ym maint yr alcohol a gaiff ei yfed ar wariant gan brynwyr ac ar y refeniw i fanwerthwyr a'r Trysorlys
5. Modelu maint a dosbarthiad presennol niwed cysylltiedig ag alcohol (yn nhermau'r effaith ar ganlyniadau o ran iechyd, troseddau a'r gweithle)
6. Modelu effaith newidiadau ym maint yr alcohol a gaiff ei yfed ar risg canlyniadau iechyd cysylltiedig ag alcohol
7. Modelu effaith y newidiadau hyn o ran risg ar gyfraddau marwolaethau, iechyd y boblogaeth, niferoedd derbyniadau i ysbytai a chostau gofal iechyd cysylltiedig
8. Modelu effaith y newidiadau hyn ym maint yr alcohol a gaiff ei yfed ar droseddau cysylltiedig ag alcohol a chostau cysylltiedig i'r gymdeithas (yn nhermau costau uniongyrchol plismona ac effaith negyddol troseddau ar iechyd y dioddefwyr)
9. Modelu effaith y newidiadau hyn ym maint yr alcohol a gaiff ei yfed ar absenoldeb o'r gweithle a'r costau cysylltiedig i'r gymdeithas.

Caiff y camau hyn eu gweithredu mewn dau fodel cysylltiedig. Mae'r model cyntaf, economaidd yn bennaf, yn cynnwys camau 1 i 4, ac mae'r ail fodel, epidemiolegol yn bennaf, yn cynnwys camau 5 i 9. Ar hyd y ddau fodel, rhoddir ystyriaeth i lefelau ac i batrymau maint yr alcohol a gaiff ei yfed, a sut mae'r rhain a nodweddion llinell sylfaen eraill yn amrywio ar draws y boblogaeth. Yn y fersiwn o Fodel Polisi Alcohol Sheffield a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad hwn (SAPM v3.5), caiff yr heterogenedd hwn ei fodelu ar draws rhyw, oedran (mewn 4 grŵp – 18-24, 25-34, 35-55 a 55 a hŷn) a chwintellau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), mesur aml-elfen ar sail ardal o amddifadedd a gyfrifir gan Lywodraeth Cymru<sup>16</sup>. At hynny, caiff y model ei rannu ymhellach i dri grŵp o yfwyr:

- Yfwyr cymedrol (pobl sy'n yfed yn unol â'r hyn a argymhellir yng nghanllawiau Prif Swyddog Meddygol y Deyrnas Unedig, sef 14 uned yr wythnos)
- Yfwyr peryglus (pobl sy'n yfed mwy na'r hyn a argymhellir yng nghanllawiau presennol y Deyrnas Unedig, ond sy'n yfed llai na 35 uned yr wythnos yn achos menywod neu 50 uned yr wythnos i ddynion)

<sup>‡</sup> Mae 'mewnfasnach' yn cyfeirio at leoedd, megis tafarnau a bwytai, lle caiff alcohol ei werthu i'w yfed yn y fangre. Mae 'allfasnach' yn cyfeirio at leoedd, megis siopau ac archfarchnadoedd, lle caiff alcohol ei werthu i'w yfed mewn man arall.

- Yfwyr niweidiol (menywod sy'n yfed mwy na 35 uned yr wythnos neu ddynion sy'n yfed mwy na 50 uned yr wythnos)

Gellir gweld disgrifiad manwl o'r fethodoleg modelu sy'n sail i'r ddau fodel hyn yn yr adroddiad i Gymru a gyhoeddwyd yn 2014 <sup>1</sup> ac mewn cyhoeddiadau eraill mwy diweddar <sup>3,10,17</sup>. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio y ffynonellau data a ddefnyddir i boblogeiddio'r model a'r newidiadau allweddol ers 2014 yn unig.

## Data

Mae Model Polisi Alcohol Sheffield yn cyfod data o amrywiaeth fawr o ffynonellau. Nodir y rhain yn fyr isod:

### Data ar y boblogaeth

Cafwyd data ar nifer yr oedolion (18 oed a hŷn) yn byw yng Nghymru yn ôl oedran (mewn blynyddoedd unigol), rhyw ac amddifadedd (wedi'i fesur yng nghwintellau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)) o amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2015 i bob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is<sup>§</sup> yng Nghymru <sup>18</sup> ar y cyd gyda safleoedd MALIC oddi wrth StatsCymru <sup>19</sup>.

### Data ar yfed alcohol


Cafwyd data hunan-gofnodedig ar yfed alcohol ar lefel unigolion i Gymru o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17, a ddarparwyd yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

### Data ar bris alcohol

Cafwyd data hunan-gofnodedig ar brynu alcohol ar lefel trafodion unigol i Gymru a Lloegr (gan nad oedd sampl Cymru yn unig yn ddigon mawr) o Arolwg Costau Byw a Bwyd (LCFS) (cyfun) 2010-15, a ddarparwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cafodd y data hyn eu chwyddo i brisiau 2016 gan ddefnyddio mynegeion chwyddiant penodol i alcohol a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol <sup>20</sup>. Wedyn cafodd y data eu calibradu i ddata prisiau gwerthiannau allfasnach penodol i fathau o ddiodydd i ranbarth teledu Cymru a Gorllewin Lloegr ar gyfer 2016 oddi wrth The Nielsen Company a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Gan fod angen alinio'r data hyn (sy'n cynnwys data ar incwm aelwydydd, ond nid ar MALIC) gyda'r data ar bryniannau o Arolwg Cenedlaethol Cymru (sy'n cynnwys data ar MALIC, ond nid ar incwm aelwydydd), bu'n rhaid inni ragdybio bod patrymau prynu ym mhob cwntel o incwm aelwydydd wedi'i gyfwerthu yn gyfwerth â'r rheiny yng nghwntel cyfatebol MALIC. Dangosir dosbarthiad lefel poblogaeth canlyniadol prisiau yn ôl math o ddiod (cwrw, seidr, gwin a gwirodydd) a sianel (mewnfasnach ac allfasnach) yn Ffigur 1.

<sup>§</sup> Uned ddaearyddol â phoblogaeth o oddeutu 1,500 y cyfrifir safleoedd MALIC ar ei sail

Ffigur 1: Dosbarthiadau cronol prisiau a delir am alcohol yn ôl sianel a math o ddiod (LCFS 2010-15 a Nielsen 2016)



### Elastigeddau prisiau


Cafodd elastigeddau prisiau, sy'n amcangyfrif y newid cyfrannol o ran faint o alcohol a gaiff ei yfed yn dilyn newid cyfrannol ym mhrisiau alcohol, eu cymryd o amcangyfrifon cyhoeddedig a gafwyd gan ddefnyddio data o Gymru a Lloegr <sup>21</sup>.

### Cyfraddau trosglwyddo trethi

Cafodd amcangyfrifon am y graddau y caiff codiadau yn y doll ar alcohol eu trosglwyddo i gwsmeriaid fel codiadau mewn prisiau i'r allfasnach eu cymryd o amcangyfrifon cyhoeddedig a gafwyd gan ddefnyddio data o Loegr <sup>22</sup>. Dangosir y cyfraddau hyn yn Ffigur 2. Nid oes amcangyfrifon tebyg yn bodoli ar gyfer y fewnfasnach ac felly rydym yn rhagdybio bod unrhyw godiadau yn y doll yn cael eu trosglwyddo'n llawn i'r cwsmer (sef cyfradd trosglwyddo o 1). Mae'r rhagdybiaeth hon yn debygol o arwain at oramcangyfrif effaith polisïau treth, gan mai

tystiolaeth gyfyngedig sydd i awgrymu bod cyfraddau trosglwyddo yn y fewnfasnach yn is na'r rhai yn yr allfasnach <sup>23</sup>, h.y. bod manwerthwyr y fewnfasnach yn ysgwyddo cyfran fwy o unrhyw godiadau yn y doll yn hytrach na'u trosglwyddo i gwsmeriaid. Fodd bynnag, mae'n aneglur i ba raddau mae hyn yn digwydd.

*Ffigur 2: Amcangyfrif o'r cyfraddau y caiff codiadau yn y doll eu trosglwyddo i brisiau alcohol yr allfasnach, wedi'i gymryd o Ally et al. (2014)*



### Data ar farwolaethau

Cafwyd cofnodion marwolaethau ar gyfer 43 o gyflyrau iechyd cysylltiedig ag alcohol (a restrir yn Nhabl 1), ac ar gyfer yr holl achosion eraill wedi'u cyfuno, i Gymru ar gyfer y blynyddoedd 2014-16 oddi wrth y Swyddfa Ystadegau Gwladol <sup>24</sup>. Cafodd y ffigurau hyn eu rhannu yn ôl grŵp oedran (18-24, 25-34, 35-54, 55 a hŷn), rhyw a chwintelau MALIC.

### Data ar forbidrwydd

Cafwyd cofnodion derbyniadau i ysbytai, wedi'u cywiro am ail-dderbyniadau'r un unigolion yn yr un flwyddyn, ar gyfer 43 o gyflyrau iechyd cysylltiedig ag alcohol i Gymru ar gyfer y blynyddoedd 2014-16 oddi wrth Wasanaethau Gwybodeg GIG Cymru. Hefyd dadansoddwyd yr un data i greu amcangyfrifon o nifer gyfartalog y derbyniadau i ysbytai mewn blwyddyn i unigolyn â phob un o'r 43 o gyflyrau iechyd oedd wedi'u cynnwys yn y model.

### Data ar gostau gofal iechyd

Cafodd amcangyfrifon o'r costau blynyddol cyfartalog i'r GIG sy'n gysylltiedig â phob un o'r 43 o gyflyrau iechyd a fodelwyd eu cymryd o ffigurau cyhoeddus ar gyfer Cymru a Lloegr a'u chwyddo i brisiau 2016 gan ddefnyddio mynegai Gwasanaethau Iechyd Ysbyty a Chymunedol yr Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol <sup>25</sup>. Caiff y costau hyn, ynghyd â niferoedd blynyddol marwolaethau a derbyniadau i ysbytai a gofnodwyd i Gymru ar gyfer pob cyflwr eu dangos yn Tabl 1.

Tabl 1: Cyflyrau iechyd cysylltiedig ag alcohol sydd wedi'u cynnwys yn SAPM3.5 gyda niferoedd a chostau llinell sylfaen

| Cyflwr                                                                 | Cod ICD-10           | Nifer gyfartalog o farwolaethau pob blwyddyn (2014-16) | Nifer gyfartalog o dderbyniadau i ysbytai pob blwyddyn (2014-16) | Nifer gymedrig o dderbyniadau i ysbytai pob blwyddyn i bob unigolyn | Cost gymedrig i bob claf pob blwyddyn i'r GIG | Amcangyfrif o gyfanswm y gost pob blwyddyn i'r GIG |
|------------------------------------------------------------------------|----------------------|--------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------|----------------------------------------------------|
| Ffug syndrom Cushing wedi'i achosi gan alcohol                         | E24.4                | 0                                                      | 1                                                                | 1.00                                                                | £6,709                                        | £4,472                                             |
| Dirywiad                                                               | G31.2                | 0                                                      | 43                                                               | 2.15                                                                | £19,519                                       | £390,385                                           |
| Polyniropathi alcoholig                                                | G62.1                | 0                                                      | 27                                                               | 2.05                                                                | £12,164                                       | £162,189                                           |
| Myopathi alcoholig                                                     | G72.1                | 0                                                      | 7                                                                | 1.50                                                                | £15,013                                       | £70,063                                            |
| Cardiomyopathi alcoholig                                               | I42.6                | 4                                                      | 87                                                               | 2.02                                                                | £9,929                                        | £426,940                                           |
| Gastritis alcoholig                                                    | K29.2                | 0                                                      | 100                                                              | 1.55                                                                | £14,398                                       | £926,255                                           |
| Clefyd yr iau / afu alcoholig                                          | K70                  | 309                                                    | 3,330                                                            | 2.10                                                                | £5,346                                        | £8,495,020                                         |
| Pancreatitis aciwt                                                     | K85.2                | 2                                                      | 181                                                              | 1.57                                                                | £8,361                                        | £964,339                                           |
| Pancreatitis cronig (wedi'i achosi gan alcohol)                        | K86.0                | 1                                                      | 256                                                              | 2.17                                                                | £22,332                                       | £2,635,191                                         |
| Gofal i'r fam oherwydd niwed (a amheuir) i'r ffetws oddi wrth alcohol  | O35.4                | 0                                                      | 0                                                                | 1.00                                                                | £8,361                                        | £0                                                 |
| Anhwylerau meddyliol ac ymddygiadol oherwydd defnydd o alcohol         | F10                  | 29                                                     | 9,332                                                            | 1.45                                                                | £6,867                                        | £44,054,369                                        |
| Lefel ormodol o alcohol yn y gwaed                                     | R78.0                | 0                                                      | 19                                                               | 1.18                                                                | £8,361                                        | £136,568                                           |
| Effaith wenwynig alcohol                                               | T51.0, T51.1, T51.9  | 1                                                      | 1,678                                                            | 1.29                                                                | £6,222                                        | £8,122,159                                         |
| Gwenwyno damweiniol trwy gysylltiad ag alcohol                         | X45                  | 20                                                     | 8                                                                | 1.14                                                                | £2,084                                        | £15,282                                            |
| Hunan-wenwyno bwriadol gan a chysylltu ag alcohol                      | X65                  | 0                                                      | 23                                                               | 1.26                                                                | £8,361                                        | £150,504                                           |
| Gwenwyno gan a chysylltu ag alcohol, bwriad heb ei benderfynu          | Y15                  | 0                                                      | 2                                                                | 1.00                                                                | £8,361                                        | £19,510                                            |
| Tystiolaeth o ran gan alcohol a ganfuwyd trwy lefel alcohol yn y gwaed | Y90                  | 0                                                      | 9                                                                | 1.13                                                                | £8,361                                        | £64,103                                            |
| Twbercwlosis                                                           | A15-A19              | 10                                                     | 128                                                              | 1.44                                                                | £8,361                                        | £741,371                                           |
| Neoplasm malaen o'r gwefus, ceudod y geg a'r ffaryncs                  | C00-C14              | 141                                                    | 1,647                                                            | 2.69                                                                | £9,655                                        | £5,909,097                                         |
| Neoplasm malaen o'r oesoffagws                                         | C15                  | 415                                                    | 2,040                                                            | 2.61                                                                | £7,116                                        | £5,562,271                                         |
| Neoplasm malaen o'r colon a'r rectwm                                   | C18-C21              | 854                                                    | 4,993                                                            | 2.38                                                                | £10,248                                       | £21,523,404                                        |
| Neoplasm malaen o'r iau / afu a'r dwythellau bustl yn yr iau / afu     | C22                  | 266                                                    | 439                                                              | 2.44                                                                | £7,292                                        | £1,312,576                                         |
| Neoplasm malaen o'r laryncs                                            | C32                  | 42                                                     | 433                                                              | 2.45                                                                | £6,861                                        | £1,214,310                                         |
| Neoplasm malaen o'r fron                                               | C50                  | 509                                                    | 5,458                                                            | 1.82                                                                | £5,193                                        | £15,551,138                                        |
| Diabetes mellitus (math II)                                            | E10-E14              | 271                                                    | 24,449                                                           | 2.04                                                                | £6,098                                        | £73,234,384                                        |
| Epilepsi a status epilepticus                                          | G40-G41              | 39                                                     | 10,660                                                           | 1.68                                                                | £9,060                                        | £57,478,347                                        |
| Clefydau gorbwysedd                                                    | I10-I13              | 224                                                    | 124,383                                                          | 1.56                                                                | £5,795                                        | £462,683,976                                       |
| Clefyd Ischaemig y galon                                               | I20-I25              | 3,284                                                  | 23,308                                                           | 2.00                                                                | £5,283                                        | £61,655,939                                        |
| Arrhythmia cardiaidd                                                   | I47-I48              | 221                                                    | 36,345                                                           | 1.83                                                                | £8,266                                        | £164,443,732                                       |
| Strôc gwaedlifol a strôc arall nad yw'n ischaemig                      | I60-I62, I69.0-I69.2 | 462                                                    | 1,108                                                            | 1.57                                                                | £6,631                                        | £4,692,584                                         |
| Strôc ischaemig                                                        | I63-I66, I69.3-I69.4 | 877                                                    | 3,019                                                            | 1.75                                                                | £8,669                                        | £14,977,320                                        |

| <b>Cyflwr</b>                                                              | <b>Cod ICD-10</b>               | <b>Nifer gyfartalog o farwolaethau pob blwyddyn (2014-16)</b> | <b>Nifer gyfartalog o dderbyniadau i ysbytai pob blwyddyn (2014-16)</b> | <b>Nifer gymedrig o dderbyniadau i ysbytai pob blwyddyn i bob unigolyn</b> | <b>Cost gymedrig i bob claf pob blwyddyn i'r GIG</b> | <b>Amcangyfrif o gyfanswm y gost pob blwyddyn i'r GIG</b> |
|----------------------------------------------------------------------------|---------------------------------|---------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------|
| Heintiau'r llwybr anadlu isaf: niwmonia                                    | J10.0, J11.0, J12-J15, J18      | 1,323                                                         | 11,215                                                                  | 1.40                                                                       | £8,361                                               | £66,865,501                                               |
| Sirosis yr iau / afu                                                       | K73-K74                         | 116                                                           | 1,851                                                                   | 1.88                                                                       | £5,310                                               | £5,228,374                                                |
| Pancreatitis aciwt a chronig                                               | K85-K86 ac eithrio K85.2, K86.0 | 67                                                            | 3,009                                                                   | 1.57                                                                       | £5,728                                               | £10,998,791                                               |
| Anafiadau trafndiaeth (gan gynnwys damweiniau traffig ffyrdd)              | V01-V98, Y85.0                  | 111                                                           | 2,167                                                                   | 1.08                                                                       | £16,826                                              | £33,679,336                                               |
| Anafiadau oherwydd syrthio                                                 | W00-W19                         | 260                                                           | 10,421                                                                  | 1.21                                                                       | £4,918                                               | £42,447,793                                               |
| Cysylltiad â grymoedd mecanyddol (gan gynnwys damweiniau gyda pheiriannau) | W20-W52                         | 6                                                             | 4,001                                                                   | 1.08                                                                       | £6,058                                               | £22,549,669                                               |
| Boddi                                                                      | W65-W74                         | 16                                                            | 7                                                                       | 1.18                                                                       | £3,488                                               | £19,766                                                   |
| Anafiadau anfwriadol eraill                                                | W75-W99, X30-X33, X50-X58       | 37                                                            | 0                                                                       | 1.00                                                                       | £4,212                                               | £0                                                        |
| Gwenwyno damweiniol trwy gysylltiad â sylweddau gwenwynig                  | X40-X49 ac eithrio X45          | 180                                                           | 839                                                                     | 1.21                                                                       | £8,361                                               | £5,788,823                                                |
| Hunan-niwed bwriadol                                                       | X60-X84, Y87.0 ac eithrio X65   | 244                                                           | 2,441                                                                   | 1.45                                                                       | £4,879                                               | £8,206,827                                                |
| Ymosodiad                                                                  | X85 -Y09, Y87.1                 | 11                                                            | 908                                                                     | 1.09                                                                       | £5,275                                               | £4,379,796                                                |
| Anafiadau bwriadol eraill                                                  | Y35                             | 0                                                             | 865                                                                     | 1.14                                                                       | £8,361                                               | £6,371,328                                                |
|                                                                            |                                 |                                                               |                                                                         |                                                                            |                                                      |                                                           |
| <b>Cyfanswm</b>                                                            |                                 | 10,354                                                        | 291,238                                                                 |                                                                            |                                                      | £1,164,153,802                                            |

## Ansawdd bywyd cysylltiedig ag iechyd

Defnyddiwyd amcangyfrifon a gyhoeddwyd o'r blaen o werthoedd defnyddioldeb iechyd penodol i oed a rhyw ar gyfer pob un o'r 43 o gyflyrau iechyd a fodelwyd, a'r boblogaeth gyffredinol, ar sail dadansoddiad o ddata o'r Health Outcomes Data Repository (HODaR) <sup>4,26</sup>.

## Perthnasoedd rhwng yfed alcohol a risg niwed i iechyd

Ar gyfer pob un o'r 17 cyflwr iechyd yn y model y gellir eu priodoli'n rhannol i alcohol ac y mae risg yn gysylltiedig â defnydd alcohol cronig, yn hytrach nag aciwt, caiff yr amcangyfrifon o'r berthynas rhwng lefelau defnydd alcohol cymedrig a risg niwed eu cymryd o'r llenyddiaeth wyddonol. Daw'r perthnasoedd hyn o amrywiaeth o meta-ddadansoddiad diweddar ac maent wedi'u halinio â'r rheiny a ddefnyddiwyd mewn astudiaethau diweddar o faich rhyngwladol clefydau <sup>27</sup>. Gellir gweld rhestr lawn o'r ffynonellau ar gyfer pob clefyd a'r hafaliadau risg cysylltiedig yn Rehm et al. <sup>28</sup>.

## Data niferoedd troseddau

Cafwyd data ar gyfanswm niferoedd troseddau cofnodedig ym mhob un o 4 heddlu Cymru (Dyfed-Powys, Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru) ar gyfer 19 trosedd gwahanol sy'n gysylltiedig ag alcohol (a restrir yn Tabl 2) o ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ar gyfer 2014/15, 2015/16 a 2016/17 <sup>29</sup>. Cafodd y ffigurau hyn eu haddasu i gyfrifo am dangofnodi gwir gyfraddau pob trosedd gan ddefnyddio amcangyfrifon y Swyddfa Gartref o'r gyfradd tangofnodi <sup>30</sup>.

## Demograffeg troseddau

Gan nad yw'r ffigurau niferoedd troseddau sydd wedi'u cyhoeddi yn rhoi unrhyw wybodaeth am nodweddion demograffig y troseddau, cawsom ddadansoddiad manwl o ddosbarthiad oed a rhyw troseddau a ymddangosodd gerbron unrhyw un o'r 22 llys ynadon neu 4 llys y goron yng Nghymru am bob un o'r 19 categori o droseddau yn ystod 2014/15, 2015/16 a 2016/17 oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Defnyddir hyn i ddosrannu cyfanswm amcangyfrifedig y troseddau ar draws y boblogaeth, dan y rhagdybiaeth bod dosbarthiad oed a rhyw y rheiny a ymddangosodd gerbron llysoedd yn cyfateb i ddosbarthiad oed a rhyw troseddau. Yn anffodus, nid oedd y data hyn ar gael wedi'u rhannu ymhellach yn ôl cwintel MALIC y troseddau, ac felly bu'n rhaid inni ragdybio bod niferoedd troseddau'n annibynnol ar amddifadedd, rhagdybiaeth sy'n annhebygol o fod yn wir yn ymarferol, yn enwedig gan fod cyfraddau troseddau cymdogaethau hwythau'n un o elfennau cyfrifiad MALIC.

## Costau troseddau

Cymerwyd amcangyfrifon o gostau pob un o'r 19 categori o droseddau i'r gymdeithas o ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref <sup>30</sup> wedi'u chwyddo i brisiau 2016 gan ddefnyddio data chwyddiant y Swyddfa Ystadegau Gwladol <sup>20</sup>. Noder bod yr amcangyfrifon hyn yn cynnwys costau gwaith atal troseddau a phlisma, costau cysylltiedig ag erlyn a hefyd amcangyfrif o brisiad ariannol y niwed a achosir i'r dioddefwr, ac felly ni ddylid gweld y ffigurau hyn fel amcangyfrif o'r arbedion uniongyrchol i'r system heddlu a chyfiawnder troseddol o ganlyniad i roi unrhyw bolisi ar waith.

## Ffracsiynau y gellir eu priodoli i alcohol ar gyfer troseddau

Defnyddiwyd amcangyfrifon cyhoeddusig o gyfran y troseddau ym mhob categori y gellir eu priodoli i alcohol, wedi'u cymryd o'r Offending Crime and Justice Survey <sup>4</sup>. Rhoddir crynodeb o'r rhain yn Tabl 2.

Tabl 2: Amcangyfrif o niferoedd a chostau troseddau pob blwyddyn

| Trosedd                                                               | Nifer gofnodedig gyfartalog pob blwyddyn (2014/15-2016/17) | Ffactor uwchraddio i gyfrifo am dangofnodi | Amcangyfrif o gyfanswm troseddau pob blwyddyn | Amcangyfrif o gost pob trosedd | Amcangyfrif o gyfanswm y costau pob blwyddyn | Ffracsiwn y gellir ei briodoli i alcohol - gwrywod | Ffracsiwn y gellir ei briodoli i alcohol - benywod |
|-----------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------|--------------------------------------------|-----------------------------------------------|--------------------------------|----------------------------------------------|----------------------------------------------------|----------------------------------------------------|
| Achosi marwolaeth trwy yrru diofal o dan ddylanwad diod neu gyffuriau | 0                                                          | 1                                          | 0                                             | £1,936,383                     | £0                                           | 100.0%                                             | 100.0%                                             |
| Ymosod gyda'r bwriad o achosi niwed difrifol/perylglu bywyd           | 1,564                                                      | 1.5                                        | 2,346                                         | £28,576                        | £67,039,358                                  | 11.3%                                              | 28.3%                                              |
| Ymosod gydag anaf                                                     | 21,543                                                     | 1.5                                        | 32,315                                        | £10,866                        | £351,125,250                                 | 11.3%                                              | 28.3%                                              |
| Ymosod heb anaf                                                       | 17,833                                                     | 7.9                                        | 140,878                                       | £1,942                         | £273,625,546                                 | 18.0%                                              | 14.7%                                              |
| Difrod troseddol                                                      | 32,078                                                     | 5.9                                        | 189,262                                       | £1,604                         | £303,638,692                                 | 31.1%                                              | 34.1%                                              |
| Dwyn oddi ar y person                                                 | 1,749                                                      | 2.7                                        | 4,722                                         | £847                           | £3,999,018                                   | 1.4%                                               | 1.3%                                               |
| Lladrad (Personol)                                                    | 644                                                        | 4.8                                        | 3,093                                         | £9,778                         | £30,241,474                                  | 1.4%                                               | 1.3%                                               |
| Lladrad (Busnes)                                                      | 85                                                         | 4.8                                        | 406                                           | £10,402                        | £4,227,282                                   | 1.4%                                               | 1.3%                                               |
| Byrgleriaeth mewn annedd                                              | 7,014                                                      | 2.8                                        | 19,639                                        | £4,356                         | £85,553,674                                  | 1.4%                                               | 1.3%                                               |
| Byrgleriaeth heb fod mewn annedd                                      | 10,177                                                     | 1.9                                        | 19,336                                        | £5,114                         | £98,891,976                                  | 1.4%                                               | 1.3%                                               |
| Dwyn beic pedalau                                                     | 3,117                                                      | 3.6                                        | 11,221                                        | £847                           | £9,502,526                                   | 5.3%                                               | 51.4%                                              |
| Dwyn o gerbyd                                                         | 10,097                                                     | 3.5                                        | 35,341                                        | £1,266                         | £44,754,385                                  | 5.3%                                               | 51.4%                                              |
| Mynd â cherbyd – gwaethygedig                                         | 404                                                        | 1.3                                        | 525                                           | £5,516                         | £2,897,052                                   | 5.3%                                               | 51.4%                                              |
| Dwyn cerbyd                                                           | 2,856                                                      | 1.3                                        | 3,712                                         | £8,331                         | £30,928,835                                  | 5.3%                                               | 51.4%                                              |
| Dwyn o fath arall                                                     | 15,769                                                     | 2.7                                        | 42,577                                        | £847                           | £36,055,942                                  | 1.4%                                               | 1.3%                                               |
| Dwyn o siopau                                                         | 17,797                                                     | 16.1                                       | 286,537                                       | £138                           | £39,434,624                                  | 1.4%                                               | 1.3%                                               |
| Anhrefn treisgar                                                      | 17                                                         | 1.5                                        | 26                                            | £19,721                        | £512,743                                     | 14.5%                                              | 21.2%                                              |
| Troseddau rhywiol                                                     | 5,324                                                      | 13.6                                       | 72,411                                        | £41,012                        | £2,969,732,307                               | 14.5%                                              | 21.2%                                              |
| Dynladdiad                                                            | 29                                                         | 1                                          | 29                                            | £1,936,383                     | £56,155,104                                  | 14.5%                                              | 21.2%                                              |



## Cyfraddau cyflogaeth ac absenoldeb

Cafodd cyfran pob grŵp oed a rhyw yn y model sydd mewn cyflogaeth, yn hytrach na bod yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar, ei chyfrifo o sampl Cymru o'r Quarterly Labour Force Survey (QLFS) o Hydref 2015 i Fedi 2017 (cyfun) a gafwyd oddi wrth y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Defnyddiwyd y data hyn hefyd i greu amcangyfrifon am nifer gyfartalog y diwrnodau gwaith amserlenedig a nifer y diwrnodau o absenoldeb yn yr wythnos flaenorol. Noder, gan nad yw'r QLFS yn cofnodi ymddygiad yfed, y bu'n rhaid inni ragdybio bod yfed yn annibynnol ar gyfraddau cyflogaeth.

## Costau absenoldeb o'r gweithle

Rhoddir gwerth i ddiwrnodau o absenoldeb o'r gwaith gan ddefnyddio'r cyflog gros cymedrig i unigolion ym mhob grŵp oed a rhyw. Cafwyd y rhain hefyd o ddata'r QLFS.

## Ffracsiynau y gellir eu priodoli i alcohol ar gyfer absenoldeb o'r gweithle

Ni ellid dod o hyd i unrhyw ddata i Gymru, na hyd yn oed y Deyrnas Unedig, ar gyfradd yr absenoldeb o'r gweithle y gellid ei briodoli i alcohol. Felly cymerasom amcangyfrifon hunan-gofnodedig o'r ffigurau hyn, wedi'u rhannu yn ôl oed a rhyw, o ffigurau cyhoeddedig ar gyfer Iwerddon, a gafwyd o'r National Alcohol Diary Survey 2013<sup>12</sup>. Dangosir y rhain yn Tabl 3 ynghyd â chyfraddau absenoldeb blynyddol. Noder mai sail yr amcangyfrifon hyn yw unigolion yn priodoli eu habsenoldeb i alcohol, felly mae'n bosibl eu bod yn tanamcangyfrif gwir faich absenoldeb alcohol, gan ei bod yn bosibl nad yw ymatebwyr i'r arolwg wedi disgrifio rhai o'r problemau iechyd y gellir eu priodoli i alcohol a achosodd iddynt beidio â mynd i'r gwaith fel rhai a achoswyd yn uniongyrchol gan alcohol.

Tabl 3: Amcangyfrifon o gyfraddau cyflogaeth ac absenoldeb o'r gweithle

|                   |              | Poblogaeth | Cyfradd cyflogaeth | Diwrnodau gwaith cyfartalog pob wythnos | Cyfradd absenoldeb gyfan | Incwm blynyddol gros cymedrig | Ffracsiwn y gellir ei briodoli i alcohol |
|-------------------|--------------|------------|--------------------|-----------------------------------------|--------------------------|-------------------------------|------------------------------------------|
| <b>Gwrywod</b>    | <b>18-24</b> | 151,280    | 61.9%              | 4.58                                    | 1.1%                     | £15,343                       | 36%                                      |
|                   | <b>25-34</b> | 190,819    | 85.3%              | 4.92                                    | 0.6%                     | £23,591                       | 23%                                      |
|                   | <b>35-54</b> | 390,106    | 87.5%              | 4.90                                    | 1.1%                     | £31,238                       | 8%                                       |
|                   | <b>55+</b>   | 464,123    | 34.6%              | 4.78                                    | 2.2%                     | £28,952                       | 10%                                      |
| <b>Benywod</b>    | <b>18-24</b> | 141,168    | 61.2%              | 4.10                                    | 1.0%                     | £12,048                       | 33%                                      |
|                   | <b>25-34</b> | 187,475    | 75.4%              | 4.30                                    | 1.7%                     | £18,100                       | 9%                                       |
|                   | <b>35-54</b> | 404,204    | 79.7%              | 4.38                                    | 2.1%                     | £21,059                       | 4%                                       |
|                   | <b>55+</b>   | 521,820    | 25.6%              | 4.25                                    | 1.7%                     | £18,124                       | 0%                                       |
| <b>Poblogaeth</b> |              | 2,450,995  | 58.7%              | 4.60                                    | 1.5%                     | £22,796                       | 12%                                      |

## Newidiadau ers adroddiad 2014

Fel y dangosir yn yr adran flaenorol, bu newidiadau sylweddol i'r data a ddefnyddir ym Model Polisi Alcohol Sheffield ers adroddiad 2014. Y mwyaf arwyddocaol o'r newidiadau hyn yw'r defnydd o arolwg mawr diweddar ar yfed alcohol, Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17, yn lle sampl data llawer llai o General Household Surveys 2008-11. At hynny, mae defnyddio data llawer mwy diweddar ar brynu alcohol (2010-15 yn hytrach na 2001-09) yn ddatblygiad arwyddocaol. Hefyd bu newidiadau nodedig yn y perthnasod rhwng yfed alcohol a niwed a gymerwyd o'r llenyddiaeth ryngwladol, yn arbennig ar gyfer canserau lle bu cynnydd sylweddol yn y sail dystiolaeth yn y blynyddoedd diwethaf<sup>31</sup> ac ar gyfer clefyd ischaemig y galon, lle mae

tystiolaeth newydd wedi dangos bod yfed trwm ysbeidiol yn dileu unrhyw effeithiau amddiffynnol a roddir gan yfed lefelau cymedrol o alcohol <sup>32,33</sup>.

Yn ychwanegol at y gwelliannau hyn yn y data a ddefnyddir yn y model, mae'r adroddiad hwn hefyd yn edrych ar effaith codi trethi ar faint o alcohol a gaiff ei yfed a'r canlyniadau yn sgil hynny o ran iechyd, troseddau a'r gweithle. Modelir effaith newidiadau yn y doll ar brisiau alcohol trwy addasu'r data lefel trafodion o'r Arolwg Costau Byw a Bwyd a ddisgrifir yn yr adran data. Y cam cyntaf yn y broses hon yw amcangyfrif cyfraddau effeithiol y doll am bob uned o alcohol ar gyfer pob math o ddiod yn y model (cwrw, seidr, gwin, gwirodydd a diodydd parod i'w hyfed<sup>\*\*</sup>). Mae'r rhain wedi'u seilio ar gyfraddau diweddaraf y doll (mewn grym Mawrth 2017), ond mae gan rai mathau o ddioddydd (e.e. cwrw) gyfraddau gwahanol o'r doll gan ddibynnu ar eu cryfder alcoholaidd. I'r cynhyrchion hyn, rydym yn defnyddio data oddi wrth y Nielsen Company ar gyfran yr alcohol a gaiff ei werthu ar gryfder arbennig o uchel ac isel er mwyn cyfrifo cyfradd gyfartalog bwysoledig o'r doll am bob uned. Gan fod seidr a gwin yn cael eu trethu ar sail maint y cynnyrch, nid eu cryfder alcoholaidd, rydym yn rhagdybio gwerthoedd alcohol yn ôl cyfaint ar sail data ymchwil y farchnad. Dangosir manylion y rhagdybiaethau hyn a'r amcangyfrifon canlyniadol o'r dreth am bob uned (gan gynnwys a chan eithrio TAW ar y doll) yn Tabl 4.

---

<sup>\*\*</sup> Diodydd wedi'u cymysgu ymlaen llaw a elwir 'alcopops' yn aml

Tabl 4: Amcangyfrifon o gyfraddau'r doll am bob uned o alcohol ar sail cyfraddau toll y Deyrnas Unedig o Fawrth 2017 ymlaen

| Categori                                              | Is-gategori          | Cyfradd gyfredol y doll              | Amcangyfrif o werth cymedrig alcohol yn ôl cyfaint | Amcangyfrif o gyfradd y doll am bob uned (ceiniogau) | Cyfran o'r categori | Cyfradd gyfartalog bwysoledig y doll am bob uned (ceiniogau) |
|-------------------------------------------------------|----------------------|--------------------------------------|----------------------------------------------------|------------------------------------------------------|---------------------|--------------------------------------------------------------|
| Cwrw                                                  | Cyffredinol          | £19.08 am bob litr o ethanol         | Amh.                                               | 19.08                                                | 98.4%               | 19.15                                                        |
|                                                       | Cryfder uchel >7.5%  | £24.77 am bob litr o ethanol         |                                                    | 24.77                                                | 1.5%                |                                                              |
|                                                       | Cryfder is 1.2%-2.8% | £8.42 am bob litr o ethanol          |                                                    | 8.42                                                 | 0.1%                |                                                              |
| Seidr (a pheri)                                       | 1.2%-7.5%            | £40.38 am bob 100 litr o'r cynnyrch  | 4.5%                                               | 8.97                                                 | 88.7%               | 8.88                                                         |
|                                                       | 7.5%-8.5%            | £61.04 am bob 100 litr o'r cynnyrch  | 7.5%                                               | 8.14                                                 | 11.3%               |                                                              |
|                                                       | Pefriog 1.2%-5.5%    | £40.38 am bob 100 litr o'r cynnyrch  | 4.5%                                               | 8.97                                                 | 0.0%                |                                                              |
|                                                       | Pefriog 5.5%-8.5%    | £279.46 am bob 100 litr o'r cynnyrch | 7.5%                                               | 37.26                                                | 0.0%                |                                                              |
|                                                       | 1.2%-4%              | £88.93 am bob 100 litr o'r cynnyrch  | 4.0%                                               | 22.23                                                | 0.0%                | 23.75                                                        |
|                                                       | 4%-5.5%              | £122.30 am bob 100 litr o'r cynnyrch | 5.5%                                               | 22.24                                                | 0.4%                |                                                              |
|                                                       | 5.5%-15%             | £288.65 am bob 100 litr o'r cynnyrch | 12.5%                                              | 23.15                                                | 84.9%               |                                                              |
|                                                       | 15%-22%              | £384.82 am bob 100 litr o'r cynnyrch | 17.0%                                              | 22.64                                                | 4.7%                |                                                              |
|                                                       | 22% ac uwch          | £28.74 am bob litr o ethanol         | Amh.                                               | 28.74                                                | 0.0%                |                                                              |
|                                                       | Pefriog 5.5%-8.5%    | £279.46 am bob 100 litr o'r cynnyrch | 7.0%                                               | 39.92                                                | 0.0%                |                                                              |
|                                                       | Pefriog 8.5-15%      | £369.72 am bob 100 litr o'r cynnyrch | 12.5%                                              | 29.58                                                | 9.9%                |                                                              |
| Gwirodydd a diodydd parod i'w hyfed ar sail gwirodydd |                      | £28.74 am bob litr o ethanol         | Amh.                                               | 28.74                                                | 100.0%              | 28.74                                                        |

Ar gyfer y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn, rydym yn amcangyfrif effaith codiad canrannol unffurf yn y doll gyfredol ar alcohol (h.y. caiff holl gyfraddau'r doll eu codi gan yr un maint cymharol). Os ydym ni'n galw  $x\%$  ar y codiad hwn, wedyn, ar gyfer pob math o ddiod  $i$ , gallwn fynegi'r newid yn y pris am bob diod safonol fel:

$$\delta_i^* = \delta_i \times x\% \times (1 + TAW)$$

Lle mai  $\delta_i^*$  yw'r newid yn y pris am bob diod safonol,  $\delta_i$  yw'r doll linell sylfaen am bob diod safonol a TAW yw'r gyfradd TAW.

Caiff y codiad diod benodol hwn ei gymhwyso i'r holl drafodion yn yr Arolwg Costau Byw a Bwyd.

Fel y nodir yn yr adran data, mae Model Polisi Alcohol Sheffield yn corffori tystiolaeth ar y graddau y mae newidiadau mewn trethi yn cael eu trosglwyddo i brisiau'r allfasnach. Fel y

darlunnir yn Ffigur 2, mae hyn yn dangos, er bod y codiad ym mhris cynhyrchion drutach yn fwy na'r codiad mewn trethi ar ei ben ei hun, mae'r cynnydd ym mhris cynhyrchion rhatach yn llai nag y disgwyld. Gwelir y graddiant hwn ar draws yr holl fathau o ddioddydd, er ei bod yn nodedig bod cyfraddau trosglwyddo is ar gyfer cwrw a gwirodydd ar draws yr holl lefelau prisiau o gymharu â gwin.

Caiff y dystiolaeth hon ei chorffori i Fodel Polisi Alcohol Sheffield trwy fynd yn gyntaf trwy brisiau lefel trafodion yr allfasnach am bob math o ddiod ( $i$ ) a chanfod deigradd y dosbarthiad prisiau mae pris y trafodyn yn dod o dani. Ar ôl hynny, cyfrifir pris ar ôl codi'r doll am bob uned ( $p_i^*$ ) trwy symio'r pris llinell sylfaen am bob uned ( $p_i$ ) o'r ddiod ( $i$ ) a lluoswm y codiad yn y doll plws TAW am bob uned ( $\delta_i^*$ ) a'r gyfradd trosglwyddo cyfatebol:

$$p_i^* = p_i + \delta_i^* \times (\text{cyfradd trosglwyddo})$$

Er enghraifft, os yw pris llinell sylfaen cwrw a gaiff ei werthu yn yr allfasnach yn negradd isaf prisiau am bob uned, yna byddid yn cymhwyso cyfradd trosglwyddo o 0.852 i unrhyw godiad yn y doll.

Yn dilyn yr addasiadau hyn defnyddir y set ddata ddiwygiedig i amcangyfrif newidiadau yn y prisiau a delir yn yr un modd ag wrth fodelu polisïau isafbris uned – gweler adroddiad 2014 i gael y manylion.

Yr agwedd newydd olaf ar y dadansoddiad hwn yw defnyddio 'cyfwerthu', y broses lle canfyddir y codiad yn y doll sy'n cyfateb i'r un effaith ar fesuriad canlyniad penodol o ddiddordeb â pholisi mynegai penodol (yn yr achos hwn, isafbris uned o 50c). Er mwyn cyfrifo'r codiad cyfwerthedig yn y doll ar gyfer unrhyw fesuriad, caiff Model Polisi Alcohol Sheffield ei redeg yn iteraidd ar draws ystod o godiadau yn y doll, hyd nes y canfyddir y lefel o'r doll sy'n creu'r gwerth canlyniad cyfwerth â'r polisi mynegai, o fewn lwfans ansicrwydd o <0.5%. Mae'r dull hwn wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen yn Lloegr <sup>3</sup> ac yn yr Alban <sup>10</sup>.

## Canlyniadau

### Llinell sylfaen yfed a phrynu alcohol

Mae Tabl 5 yn dangos bod ychydig llai na 2 filiwn o oedolion yng Nghymru sy'n yfed alcohol, a bod pob un yn yfed 610 o unedau ac yn gwario £607 y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae bron tri chwarter yr yfwyr hyn yn yfed yn unol â'r hyn a argymhellir yng nghanllawiau Prif Swyddog Meddygol y Deyrnas Unedig, sef 14 uned yr wythnos. Fodd bynnag, mae 24% o yfwyr yn yfed ar lefelau a allai fod yn beryglus (14-50 uned yr wythnos i ddynion a 14-35 i fenywod), ac mae mwy na 4% yn yfwyr niweidiol (mwy na 50 uned yr wythnos i ddynion a 35 i fenywod). Mae'r yfwr niweidiol cyfartalog yn yfed 3,924 o unedau'r flwyddyn, sy'n cyfateb i oddeutu 30 pint o gwrw neu 8 potel o win yr wythnos, ac yn gwario bron £3,000 y flwyddyn ar alcohol.

Tabl 5: Llinell sylfaen nodweddion yfwyr yn ôl math o yfwr

|                                                                                 | Yr holl yfwyr | Cymedrol  | Peryglus | Niweidiol |
|---------------------------------------------------------------------------------|---------------|-----------|----------|-----------|
| <b>Poblogaeth yfwyr</b>                                                         | 1,910,072     | 1,379,341 | 449,339  | 81,392    |
| <b>% o'r holl yfwyr</b>                                                         | 100.00%       | 72.21%    | 23.52%   | 4.26%     |
| <b>Llinell sylfaen yr alcohol mae pob yfwr yn ei yfed bob blwyddyn (unedau)</b> | 610           | 211       | 1,236    | 3,924     |
| <b>Llinell sylfaen gwariant pob yfwr bob blwyddyn</b>                           | £607          | £276      | £1,209   | £2,882    |


Rhoddir ffigurau cyfatebol yn dangos amrywiant yfed ar draws cwintelau amddifadedd yn Tabl 6. Mae'r rhain yn dangos bod pobl mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn fwy tebygol o ymatal rhag yfed yn llwyr; mae bron 27% o'r rheiny yn y cwintel mwyaf difreintiedig, o gymharu â 14% yn y cwintel lleiaf difreintiedig, yn peidio ag yfed. Ymysg y rheiny sy'n yfed, mae'r rheiny mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn yfed llai ar gyfartaledd (546 o unedau'r flwyddyn o gymharu â 648 yn y cwintel lleiaf difreintiedig) ac yn gwario cryn dipyn yn llai (£441 y flwyddyn o gymharu â £780 y flwyddyn).

Tabl 6: Llinell sylfaen nodweddion yfwyr yn ôl cwintel MALIC

|                                                                                 | C1 MALIC<br>(lleiaf<br>difreintiedig) | C2<br>MALIC | C3 MALIC | C4<br>MALIC | C5 MALIC<br>(mwyaf<br>difreintiedig) |
|---------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------|-------------|----------|-------------|--------------------------------------|
| <b>Poblogaeth yfwyr</b>                                                         | 428,613                               | 406,718     | 406,692  | 361,987     | 306,062                              |
| <b>Cyfradd ymatal</b>                                                           | 13.9%                                 | 18.9%       | 19.4%    | 20.7%       | 26.7%                                |
| <b>Llinell sylfaen yr alcohol mae pob yfwr yn ei yfed pob blwyddyn (unedau)</b> | 648                                   | 649         | 598      | 589         | 546                                  |
| <b>Llinell sylfaen gwariant pob yfwr pob blwyddyn</b>                           | £780                                  | £676        | £563     | £515        | £441                                 |


Rhoddir crynodeb o batrymau poblogaeth o ran yfwyr, faint o alcohol a gaiff ei yfed a gwariant ar alcohol yn Ffigur 3. Mae hwn yn dangos, er bod yfwyr peryglus a niweidiol gyda'i gilydd yn 22% o'r holl boblogaeth oedolion, maent yn yfed 75% o'r holl alcohol a gaiff ei yfed yng Nghymru, ac yn gyfrifol am 67% o'r holl wariant arno.

Ffigur 3: Dosbarthiad y boblogaeth, yr alcohol a gaiff ei yfed a'r gwariant ar alcohol yn ôl math o yfwr




Yn ogystal ag amrywio o ran faint maent yn ei yfed, mae'r rheiny sydd mewn grwpiau yfwyr gwahanol yn yfed cynhyrchion gwahanol. Mae yfwyr cymedrol yn yfed cyfran fwy o'u halcohol fel gwirodydd a gwin, ond mae yfwyr trymach yn yfed mwy o seidr, fel y dangosir yn Ffigur 4. Dylid ystyried y gwahaniaethau cymesur hyn ochr yn ochr â'r ffigurau o Tabl 5 – er bod yfwyr niweidiol yn yfed 8% o'u halcohol fel seidr o gymharu â 6% yn achos yfwyr cymedrol, 326 a 13, yn y drefn honno, yw niferoedd yr unedau a gaiff eu hyfed ar gyfartaledd pob blwyddyn. Mae yfwyr trymach hefyd yn yfed cyfran fwy o'u halcohol yn yr allfasnach yn hytrach na'r fewnfasnach (h.y. alcohol a brynir o siopau ac archfarchnadoedd, yn hytrach nag mewn tafarnau a bwytai), fel y dangosir yn Ffigur 5, er bod yr holl yfwyr yn yfed y rhan fwyaf o'u halcohol yn yr allfasnach, ar gyfartaledd.

Ffigur 4: Dewisiadau o ran diodydd yn ôl math o yfwr




†† Nid yw gwerthoedd llai na 5% wedi'u labelu.

Ffigur 5: Dewisiadau o ran sianel yn ôl math o yfwr




Mae gwahaniaethau sylweddol hefyd yn y prisiau mae'r rheiny mewn grwpiau gwahanol yn eu talu am eu halcohol; mae yfwyr trwm, a'r rheiny sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig, fel arfer yn talu llai am bob uned maent yn ei hyfed. Mae'r patrymau hyn, a ddangosir yn Ffigur 6 a Ffigur 7, yn rhannol oherwydd bod yfwyr yn y grwpiau hyn yn yfed mwy o'u halcohol yn yr allfasnach, lle mae prisiau fel arfer yn is, ac yn rhannol oherwydd bod yr yfwyr hyn yn prynu cynhyrchion rhatach. Ar gyfartaledd, mae yfwyr cymedrol yn talu 60c am bob uned am alcohol yr allfasnach a £2.36 am bob uned am alcohol y fewnfasnach, o gymharu â 56c ac £1.82 yn y drefn honno ar gyfer yfwyr peryglus a 48c ac £1.55 ar gyfer yfwyr niweidiol.

Ffigur 6: Prisiau cyfartalog a delir yn ôl math o ddiod ac yfwr



Ffigur 7: Prisiau cyfartalog a delir yn ôl math o ddiod a chwintel MALIC




Yn ogystal â nodi gwahaniaethau rhwng grwpiau poblogaeth o ran prisiau a delir am alcohol, mae Ffigur 6 a Ffigur 7 hefyd yn dangos amrywiant o ran prisiau rhwng cynhyrchion. Dangosir y gwahaniaethau hyn ymhellach yn Tabl 7 a Ffigur 8, sy'n nodi cyfran amcangyfrifedig yr unedau alcohol a gaiff eu gwerthu o dan ystod o drothwyon pris. Gellir gweld dadansoddiad manylach, yn ôl math o ddiod a sianel, yn canolbwyntio ar 50c yn unig, yn yr adroddiad interim. Mae'r amcangyfrifon hyn yn dangos, ar bob lefel bosibl isafbris uned, po drymaf fo'r yfwr, mwyaf yw'r gyfran o'i alcohol y bydd y polisi'n effeithio arni. Fodd bynnag, mae cyfran yr alcohol a gaiff ei yfed gan yfwyr cymedrol ac y mae effaith arni hefyd yn codi wrth i drothwy'r isafbris uned godi, o 4% ar 35c i 22% ar 50c a 50% ar 70c am bob uned.

Tabl 7: Cyfran yr alcohol a gaiff ei brynu o dan ystod o drothwyon pris yn ôl math o yfwr

|                      | Trothwy pris |     |     |     |     |     |     |     |
|----------------------|--------------|-----|-----|-----|-----|-----|-----|-----|
|                      | 35p          | 40p | 45p | 50p | 55p | 60p | 65p | 70p |
| <b>Yr holl yfwyr</b> | 7%           | 15% | 27% | 37% | 50% | 56% | 63% | 66% |
| <b>Cymedrol</b>      | 4%           | 9%  | 16% | 22% | 34% | 40% | 47% | 50% |
| <b>Peryglus</b>      | 7%           | 14% | 26% | 36% | 49% | 55% | 62% | 65% |
| <b>Niweidiol</b>     | 10%          | 19% | 35% | 46% | 62% | 67% | 74% | 78% |



Ffigur 8: Cyfran yr alcohol a gaiff ei brynu o dan ystod o drothwyon pris yn ôl math o yfwr




Mae Tabl 8 yn nodi'r dadansoddiad o unedau a gaiff eu gwerthu o dan ystod o drothwyon pris yn ôl math o ddiod a sianel. Mae hyn yn dangos, ar draws yr ystod a fodelir o drothwyon isafbris uned posibl, nad oes bron dim effaith ar brisiau yn y fewnfasnach, ond bod maint yr effaith ar brisiau'r allfasnach yn amrywio'n fawr iawn o 9% o'r holl werthiannau (yn ôl cyfaint) ar 35c am bob uned i 85% ar 70c. Mae cyfran yr alcohol a gaiff ei werthu o dan wahanol drothwyon pris hefyd yn amrywio'n fawr rhwng mathau o ddiod hyd yn oed o fewn yr allfasnach, fel y dangosir yn Ffigur 9.

Tabl 8: Cyfran yr alcohol a gaiff ei werthu o dan ystod o drothwyon pris yn ôl math o ddiod a sianel

|                            |                         | Trothwy pris |     |     |     |     |     |     |     |
|----------------------------|-------------------------|--------------|-----|-----|-----|-----|-----|-----|-----|
|                            |                         | 35p          | 40p | 45p | 50p | 55p | 60p | 65p | 70p |
| <b>Allfasnach</b>          | Cwrw                    | 20%          | 34% | 47% | 62% | 76% | 83% | 89% | 94% |
|                            | Seidr                   | 48%          | 56% | 66% | 73% | 79% | 84% | 86% | 89% |
|                            | Gwin                    | 4%           | 8%  | 22% | 32% | 55% | 64% | 75% | 81% |
|                            | Gwirodydd               | 2%           | 19% | 43% | 60% | 74% | 79% | 85% | 88% |
|                            | Diodydd parod i'w hyfed | 0%           | 0%  | 1%  | 1%  | 2%  | 2%  | 8%  | 13% |
| <b>Mewfnasnach</b>         | Cwrw                    | 0%           | 1%  | 1%  | 1%  | 2%  | 3%  | 3%  | 4%  |
|                            | Seidr                   | 0%           | 0%  | 2%  | 3%  | 4%  | 5%  | 6%  | 7%  |
|                            | Gwin                    | 1%           | 2%  | 2%  | 2%  | 3%  | 3%  | 4%  | 5%  |
|                            | Gwirodydd               | 2%           | 2%  | 4%  | 5%  | 8%  | 9%  | 9%  | 11% |
|                            | Diodydd parod i'w hyfed | 0%           | 0%  | 0%  | 0%  | 0%  | 1%  | 1%  | 1%  |
|                            |                         |              |     |     |     |     |     |     |     |
| <b>Yr holl allfasnach</b>  |                         | 9%           | 19% | 35% | 47% | 65% | 72% | 81% | 85% |
| <b>Yr holl fewfnasnach</b> |                         | 1%           | 1%  | 1%  | 2%  | 3%  | 3%  | 4%  | 5%  |
|                            |                         |              |     |     |     |     |     |     |     |
| <b>Yr holl alcohol</b>     |                         | 7%           | 15% | 27% | 37% | 50% | 56% | 63% | 66% |

Ffigur 9: Cyfran o'r alcohol yr allfasnach a gaiff ei werthu o dan ystod o drothwyon pris yn ôl math o ddiod




## Llinell sylfaen y marwolaethau a'r derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol

Yn gyffredinol, mae Model Polisi Alcohol Sheffield yn amcangyfrif bod 777 o farwolaethau a 35,637 o dderbyniadau i ysbytai yng Nghymru yn cael eu hachosi'n uniongyrchol gan alcohol. Mae Tabl 9 yn rhannu'r rhain yn ôl cyflwr, gan ddangos mai clefyd yr iau / afu yw prif achos marwolaethau oherwydd alcohol, a bod canser yn ail agos iddo. O ran derbyniadau i ysbytai mae'r patrwm yn eithaf gwahanol, gan mai'r cyfranwyr mwyaf i faich cyffredinol alcohol o ran derbyniadau i ysbytai yw pwysedd gwaed uchel a chyflyrau sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar alcohol. Mae'r ffigurau hyn hefyd yn dangos yr amcangyfrifir bod alcohol yn cael effaith amddiffynnol ar gyfer diabetes, strôc a chyflyrau cardiofasgwlaidd eraill. Mae'r effeithiau hyn yn destun llawer o ddadlau yn y llenyddiaeth academiaidd, sydd efallai'n gwneud amcangyfrifon o faich y niwed oddi wrth alcohol ac effeithiolrwydd polisiâu ar alcohol fel y'u modelir gan Fodel Polisi Alcohol Sheffield, sy'n cynnwys yr effeithiau hyn, yn geidwadol. Mae Ffigur 10 yn dangos y patrymau hyn yn weledol, gan eithrio cyflyrau amddiffynnol er mwyn hwyluso ei ddehongli.

Tabl 9: Amcangyfrif o'r marwolaethau a'r derbyniadau i ysbytai pob blwyddyn a achosir gan alcohol yn ôl cyflwr

|                                                                 | Marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn | Derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn |
|-----------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------|
| Clefyd yr iau / afu                                             | 369                                                      | 4,288                                                             |
| Anhwylдераu meddyliol ac ymddygiadol oherwydd defnydd o alcohol | 29                                                       | 9,307                                                             |
| Gwenwyniad alcohol                                              | 22                                                       | 1,736                                                             |
| Cyflyrau eraill y gellir eu priodoli'n gyfan gwbl i alcohol     | 8                                                        | 701                                                               |
| Canserau                                                        | 342                                                      | 2,169                                                             |
| Pwysedd gwaed uchel                                             | 22                                                       | 13,345                                                            |
| Strôc                                                           | -27                                                      | -227                                                              |
| Cyflyrau cardiofasgwlaidd eraill                                | -215                                                     | 595                                                               |
| Diabetes (math II)                                              | -26                                                      | -2,575                                                            |
| Cyflyrau cronig eraill                                          | 86                                                       | 2,484                                                             |
| Damweiniau traffig ar y ffordd                                  | 29                                                       | 533                                                               |
| Cwypïadau                                                       | 47                                                       | 1,689                                                             |
| Anafiadau eraill                                                | 92                                                       | 1,593                                                             |
|                                                                 |                                                          |                                                                   |
| <b>Cyfanswm</b>                                                 | <b>777</b>                                               | <b>35,637</b>                                                     |

Ffigur 10: Achosion cyfrannol marwolaethau a derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol (ac eithrio cyflyrau amddiffynnol)



Rhoddir amcangyfrifon o'r amrywiant ym maich alcohol ar iechyd yn ôl grŵp yfwyr yn Tabl 10. Fel yn achos pob canlyniad o ran niwed, rydym yn rhoi'r niferoedd absoliwt a'r cyfraddau. Y cyntaf yw'r mwyaf priodol wrth ystyried baich absoliwt alcohol, neu effaith polisi ar y baich hwn, ond mae'r ail yn fwy priodol wrth gymharu rhwng grwpiau (gan fod y grwpiau hyn yn aml o feintiau gwahanol iawn). Mae'r amcangyfrifon hyn yn dangos graddiant sylweddol iawn mewn niwed. Mae yfwyr peryglus a niweidiol yn dioddef baich niwed sylweddol o ganlyniad i yfed – e.e. ar amcangyfrif, 685 o farwolaethau a 15,421 o dderbyniadau i ysbytai bob blwyddyn am bob 100,000 o yfwyr niweidiol.

Tabl 10: Amcangyfrif o'r marwolaethau a'r derbyniadau i ysbytai a achosir gan alcohol pob blwyddyn yn ôl math o yfwr

|                                                                                                                | Yr holl yfwr | Cymedrol | Peryglus | Niweidiol |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|----------|----------|-----------|
| <b>Llinell sylfaen marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn</b>                                | 777          | -77      | 297      | 557       |
| <b>Llinell sylfaen marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol am bob 100,000 o yfwr pob blwyddyn</b>          | 41           | -6       | 66       | 685       |
|                                                                                                                |              |          |          |           |
| <b>Llinell sylfaen derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn</b>                       | 35,637       | 5,735    | 17,350   | 12,552    |
| <b>Llinell sylfaen derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol am bob 100,000 o yfwr pob blwyddyn</b> | 1,866        | 416      | 3,861    | 15,421    |


Mae Tabl 11 yn dangos bod graddiant amddifadedd sylweddol mewn niwed hefyd. Er gwaethaf y ffaith fod yfwr yn y grwpiau mwyaf difreintiedig yn yfed llai ar gyfartaledd, mae bron teirgwaith cynifer o farwolaethau a dwywaith cynifer o dderbyniadau i ysbytai am bob yfwr yn y grŵp hwn ag sydd yn y grŵp lleiaf difreintiedig. Yr enw cyffredin ar y ffenomenon hwn yw 'Paradocs Niwed Alcohol' <sup>34-37</sup>.

Tabl 11: Amcangyfrif o'r marwolaethau a'r derbyniadau i ysbytai pob blwyddyn a achosir gan alcohol yn ôl cwintel MALIC

|                                                                                                                | C1 MALIC<br>(lleiaf<br>difreintiedig) | C2<br>MALIC | C3<br>MALIC | C4<br>MALIC | C5 MALIC<br>(mwyaf<br>difreintiedig) |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------|-------------|-------------|-------------|--------------------------------------|
| <b>Llinell sylfaen marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn</b>                                | 120                                   | 123         | 141         | 165         | 228                                  |
| <b>Llinell sylfaen marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol am bob 100,000 o yfwr pob blwyddyn</b>          | 28                                    | 30          | 35          | 45          | 75                                   |
|                                                                                                                |                                       |             |             |             |                                      |
| <b>Llinell sylfaen derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn</b>                       | 5,956                                 | 6,270       | 7,082       | 7,689       | 8,639                                |
| <b>Llinell sylfaen derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol am bob 100,000 o yfwr pob blwyddyn</b> | 1,390                                 | 1,542       | 1,741       | 2,124       | 2,823                                |

Mae Ffigur 11 yn dangos y graddiant cyfun mewn marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol ar draws grwpiau amddifadedd ac yfwr. Mae hyn yn pwysleisio bod effeithiau negyddol alcohol ar iechyd wedi'u crynhoi'n anghymesur ymysg yfwr trymach yn y grwpiau economaidd gymdeithasol isaf. Dangosir y ffigurau sy'n sail i hyn yn Tabl 48 yn yr Atodiad.

Ffigur 11: Amcangyfrif o'r marwolaethau a achosir gan alcohol pob blwyddyn yn ôl grŵp yfwyr a chwintel MALIC



Yn olaf, mae Tabl 12 yn dangos yr amcangyfrifir bod 2.9% o'r holl farwolaethau ymysg oedolion yng Nghymru yn 2016 wedi'u hachosi'n uniongyrchol gan alcohol. Mae'r gyfran hon yn uwch ymysg dynion nag ymysg menywod (3.8% o gymharu ag 1.9%) ac yn sylweddol uwch yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o gymharu â'r rhai lleiaf difreintiedig (5.0% o gymharu â 2.2%).

Tabl 12: Cyfraniad alcohol i'r holl farwolaethau yn ôl rhyw ac amddifadedd

|                                        | Cyfran yr holl farwolaethau y<br>gellir ei phriodoli i alcohol |
|----------------------------------------|----------------------------------------------------------------|
| <b>Poblogaeth</b>                      | 2.9%                                                           |
| <b>Dynion</b>                          | 3.8%                                                           |
| <b>Menywod</b>                         | 1.9%                                                           |
| <b>C1 MALIC (lleiaf difreintiedig)</b> | 2.2%                                                           |
| <b>C2 MALIC</b>                        | 2.1%                                                           |
| <b>C3 MALIC</b>                        | 2.5%                                                           |
| <b>C4 MALIC</b>                        | 3.2%                                                           |
| <b>C5 MALIC (mwyaf difreintiedig)</b>  | 5.0%                                                           |

## Llinell sylfaen troseddau y gellir eu priodoli i alcohol

Mae dadansoddiad o Fodel Polisi Alcohol Sheffield yn amcangyfrif bod 88,908 o droseddau y gellir eu priodoli i alcohol yn cael eu cyflawni pob blwyddyn yng Nghymru; y mwyafrif helaeth ohonynt yw difrod troseddol (56%) a throseddau treisgar (28%). Rhoddir y canlyniadau hyn yn Tabl 13 wedi'u rhannu ymhellach yn ôl grŵp yfwyr, gan ddangos bod y nifer fwyaf o droseddau'n cael eu cyflawni gan yfwyr peryglus, ond bod y gyfradd troseddu uchaf ymysg yfwyr niweidiol. Ni roddir rhaniad yn ôl MALIC, gan nad oedd data ar droseddau ar gael yn ôl MALIC.

Tabl 13: Amcangyfrif o linell sylfaen niferoedd troseddau y gellir eu priodoli i alcohol

|                                       | Yr holl yfwyr | Cymedrol | Peryglus | Niweidiol |
|---------------------------------------|---------------|----------|----------|-----------|
| <b>Troseddau treisgar</b>             | 24,543        | 10,641   | 11,559   | 2,343     |
| <b>Difrod troseddol</b>               | 50,193        | 21,669   | 23,906   | 4,618     |
| <b>Dwyn</b>                           | 6,135         | 2,599    | 2,942    | 595       |
| <b>Troseddau rhywiol</b>              | 8,036         | 3,148    | 4,033    | 855       |
|                                       |               |          |          |           |
| <b>Cyfanswm</b>                       | 88,908        | 38,057   | 42,440   | 8,411     |
|                                       |               |          |          |           |
| <b>Cyfradd am bob 100,000 o yfwyr</b> | 4,655         | 2,759    | 9,445    | 10,334    |

## Llinell sylfaen absenoldeb o'r gweithle y gellir ei briodoli i alcohol

Mae ein dadansoddiad yn canfod yr amcangyfrifir bod ychydig mwy na hanner miliwn o ddiwrnodau o waith yn cael eu colli yng Nghymru i alcohol pob blwyddyn. Rhoddir hyn yn Tabl 14, sydd hefyd yn dangos, fel yn achos troseddau, fod y niferoedd absenoldeb absoliwt mwyaf ymysg yfwyr peryglus, a bod y gyfradd absenoldeb y gellir ei briodoli i alcohol uchaf ymysg yfwyr niweidiol.

Tabl 14: Amcangyfrif o linell sylfaen absenoldeb o'r gweithle y gellir ei briodoli i alcohol

|                                       | Yr holl yfwyr | Cymedrol | Peryglus | Niweidiol |
|---------------------------------------|---------------|----------|----------|-----------|
| <b>Diwrnodau o absenoldeb</b>         | 507,795       | 212,963  | 227,856  | 66,975    |
|                                       |               |          |          |           |
| <b>Cyfradd am bob 100,000 o yfwyr</b> | 26,585        | 15,440   | 50,709   | 82,287    |

## Llinell sylfaen costau alcohol

Yn olaf, mae Tabl 15 yn dangos amcangyfrif o gostau alcohol i'r gymdeithas. Pob blwyddyn mae Model Polisi Alcohol Sheffield yn amcangyfrif bod alcohol yn costio £159 miliwn i'r GIG yng Nghymru, ac yn lleihau nifer y blynyddoedd o fywyd wedi'u haddasu yn ôl ansawdd 6,022. Rydym yn cyfrifo amcangyfrif o werth ariannol tybiannol y gwelliant hwn yn iechyd y boblogaeth gan ddefnyddio ffigur yr Adran Iechyd sef £60,000 am bob blwyddyn o'r fath <sup>38</sup>. Amcangyfrifir bod alcohol yn costio £509 miliwn i'r gymdeithas yng Nghymru trwy gostau'r heddlu a chyfiawnder troseddol a'r effaith ar ddioddefwyr troseddau, a £45 miliwn trwy lai o gynhyrchiant yn y gweithle oherwydd absenoldeb.

Tabl 15: Amcangyfrif o linell sylfaen costau alcohol i'r gymdeithas yng Nghymru

|                                           |              |
|-------------------------------------------|--------------|
| <b>Costau uniongyrchol gofal iechyd</b>   | £158,811,082 |
| <b>Colled QALY pob blwyddyn</b>           | 6,022        |
| <b>Amcangyfrif o brisiad QALY</b>         | £361,323,595 |
| <b>Amcangyfrif o gostau troseddau</b>     | £508,980,525 |
| <b>Amcangyfrif o gostau yn y gweithle</b> | £45,420,203  |

## Gwerthusiad o effaith bosibl ystod o drothwyon isafbris uned

I gael gwerthusiad manwl o effaith bosibl isafbris uned (IU) o 50c, gweler yr adroddiad interim a gyhoeddwyd yn ddiweddar <sup>15</sup>. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cymhariaeth fwy bras o effaith ystod o drothwyon isafbris uned o 35c i 70c am bob uned.

### Amcangyfrif o effaith isafbris uned ar faint o alcohol a gaiff ei yfed


Caiff effaith a fodelir pob trothwy isafbris uned ar faint cymedrig o alcohol a gaiff ei yfed i'r boblogaeth ac yn ôl grŵp yfwyr ei dangos yn Tabl 16 a Ffigur 12. Mae hyn yn dangos bod trothwyon uwch isafbris uned yn arwain at fwy o leihad cyfan ym maint yr alcohol a gaiff ei yfed a bod y cynnydd mwyaf yn yr effaith gyda phob codiad yn y trothwy yn digwydd ymysg yr yfwyr trymaf. Fodd bynnag, maent hefyd yn dangos bod lefelau uwch isafbris uned yn cael effaith gynyddol ar yfwyr cymedrol.

Tabl 16: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar faint o alcohol a gaiff ei yfed yn ôl grŵp yfwyr

|                                                                                   |                 | <b>Yr holl yfwyr</b> | <b>Cymedrol</b> | <b>Peryglus</b> | <b>Niweidiol</b> |
|-----------------------------------------------------------------------------------|-----------------|----------------------|-----------------|-----------------|------------------|
| <b>Poblogaeth yfwyr</b>                                                           |                 | 1,910,072            | 1,379,341       | 449,339         | 81,392           |
| <b>Llinell sylfaen maint yr alcohol a gaiff ei yfed gan bob yfwr pob blwyddyn</b> |                 | 610                  | 211             | 1,236           | 3,924            |
| <b>Newid absoliwt (unedau am bob yfwr pob blwyddyn)</b>                           | <b>IU o 35c</b> | -4.9                 | -0.4            | -6.6            | -71.9            |
|                                                                                   | <b>IU o 40c</b> | -9.4                 | -0.8            | -13.9           | -128.6           |
|                                                                                   | <b>IU o 45c</b> | -14.9                | -1.4            | -24.0           | -193.1           |
|                                                                                   | <b>IU o 50c</b> | -22.0                | -2.4            | -37.4           | -268.7           |
|                                                                                   | <b>IU o 55c</b> | -30.3                | -4.0            | -55.0           | -339.3           |
|                                                                                   | <b>IU o 60c</b> | -40.7                | -6.2            | -77.7           | -419.5           |
|                                                                                   | <b>IU o 65c</b> | -52.5                | -9.0            | -103.9          | -505.3           |
|                                                                                   | <b>IU o 70c</b> | -65.4                | -12.3           | -131.7          | -599.2           |
| <b>Newid cymharol</b>                                                             | <b>IU o 35c</b> | -0.8%                | -0.2%           | -0.5%           | -1.8%            |
|                                                                                   | <b>IU o 40c</b> | -1.5%                | -0.4%           | -1.1%           | -3.3%            |
|                                                                                   | <b>IU o 45c</b> | -2.4%                | -0.7%           | -1.9%           | -4.9%            |
|                                                                                   | <b>IU o 50c</b> | -3.6%                | -1.1%           | -3.0%           | -6.8%            |
|                                                                                   | <b>IU o 55c</b> | -5.0%                | -1.9%           | -4.4%           | -8.6%            |
|                                                                                   | <b>IU o 60c</b> | -6.7%                | -3.0%           | -6.3%           | -10.7%           |
|                                                                                   | <b>IU o 65c</b> | -8.6%                | -4.3%           | -8.4%           | -12.9%           |
|                                                                                   | <b>IU o 70c</b> | -10.7%               | -5.8%           | -10.7%          | -15.3%           |



Ffigur 12: Effeithiau a fodelir polisïau isafbris uned ar faint o alcohol a gaiff ei yfed yn ôl grŵp yfwyr




Caiff amcangyfrifon cyfwerth, wedi'u rhannu yn ôl cwintel MALIC, eu dangos yn Tabl 17 a Ffigur 13. Mae'r rhain yn dangos patrwm tebyg; mae'r effeithiau'n cynyddu gyflymaf yn y grwpiau mwyaf difreintiedig wrth i drothwy'r isafbris uned godi.

Tabl 17: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar faint cymedrig yr alcohol a gaiff ei yfed yn ôl amddifadedd

|                                                                                   |                 | C1 MALIC<br>(lleiaf<br>difreintiedig) | C2<br>MALIC | C3<br>MALIC | C4<br>MALIC | C5 MALIC<br>(mwyaf<br>difreintiedig) |
|-----------------------------------------------------------------------------------|-----------------|---------------------------------------|-------------|-------------|-------------|--------------------------------------|
| <b>Poblogaeth yfwyr</b>                                                           |                 | 428,613                               | 406,718     | 406,692     | 361,987     | 306,062                              |
| <b>Llinell sylfaen maint yr alcohol a gaiff ei yfed gan bob yfwr pob blwyddyn</b> |                 | 648                                   | 649         | 598         | 589         | 546                                  |
| <b>Newid absoliwt<br/>(unedau am bob<br/>yfwr pob blwyddyn)</b>                   | <b>IU o 35c</b> | -0.2                                  | -1.7        | -2.8        | -4.2        | -19.4                                |
|                                                                                   | <b>IU o 40c</b> | -0.6                                  | -3.7        | -6.4        | -9.1        | -33.2                                |
|                                                                                   | <b>IU o 45c</b> | -1.0                                  | -6.3        | -11.4       | -15.5       | -49.7                                |
|                                                                                   | <b>IU o 50c</b> | -1.9                                  | -9.9        | -18.4       | -23.9       | -68.7                                |
|                                                                                   | <b>IU o 55c</b> | -3.6                                  | -15.3       | -27.8       | -35.2       | -85.1                                |
|                                                                                   | <b>IU o 60c</b> | -6.9                                  | -22.7       | -39.7       | -48.1       | -104.2                               |
| <b>Peryglus</b>                              |                                                                                    | -2.7%               | -3.2%              | -3.3%              | -4.6%              | -4.8%              |
| <b>Niweidiol</b>                             |                                                                                    | -1.6%               | -0.9%              | -0.9%              | -1.3%              | -1.3%              |

Ffigur 45: Effaith gymharol polisïau isafbris uned a threthi ar absenoldeb o'r gweithle




Effaith gymharol polisïau isafbris uned a threthi ar anghydraddoldebau iechyd Fel y dangosir yn Tabl 11, mae anghydraddoldebau economaidd gymdeithasol sylweddol mewn iechyd cysylltiedig ag alcohol; mae gwahaniaeth triphlyg bron yn y cyfraddau marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol rhwng y cwintelau mwyaf a lleiaf difreintiedig ym mhoblogaeth Cymru. Mae'r 'bwllch' rhwng y ddau grŵp hyn yn golygu bod 46 marwolaeth ychwanegol am bob 100,000 o yfwr yn y cwintel mwyaf difreintiedig o gymharu â'r cwintel lleiaf difreintiedig. Mae Tabl 46 a Ffigur 46 yn dangos effaith isafbris uned o 50c a'r pedwar polisi trethi a fodelir ar y bwllch anghydraddoldeb hwn. Mae'r rhain yn dangos, er bod yr holl bolisïau a fodelir yn lleihau anghydraddoldeb, amcangyfrifir bod isafbris uned yn lleihau'r bwllch yn sylweddol fwy na chodi trethi. Mae hyn oherwydd bod effeithiau isafbris uned wedi'u crynhoi'n fwy yn y grwpiau mwy difreintiedig.

Tabl 46: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned a threthi ar anghydraddoldebau iechyd

|                                        | Llinell sylfaen marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn | Newid ar ôl rhoi'r polisi ar waith |                    |                    |                    |                    |
|----------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|--------------------|--------------------|--------------------|--------------------|
|                                        |                                                                          | Isafbris uned o 50c                | Codi trethi 33.04% | Codi trethi 34.06% | Codi trethi 46.56% | Codi trethi 48.26% |
| <b>C1 MALIC (lleiaf difreintiedig)</b> | 28.1                                                                     | 28.0                               | 26.7               | 26.6               | 26.0               | 25.9               |
| <b>C2 MALIC</b>                        | 30.3                                                                     | 29.4                               | 27.9               | 27.9               | 26.9               | 26.8               |
| <b>C3 MALIC</b>                        | 34.6                                                                     | 31.9                               | 30.9               | 30.7               | 29.2               | 29.0               |
| <b>C4 MALIC</b>                        | 45.5                                                                     | 41.9                               | 41.0               | 40.9               | 39.1               | 38.9               |
| <b>C5 MALIC (mwyaf difreintiedig)</b>  | 74.5                                                                     | 62.2                               | 68.2               | 68.0               | 65.6               | 65.3               |
|                                        |                                                                          |                                    |                    |                    |                    |                    |
| <b>'Bwllch' anghydraddoldeb</b>        | 46.4                                                                     | 34.2                               | 41.5               | 41.3               | 39.6               | 39.3               |

Figur 46: Effaith gymharol polisiâu isafbris uned a threthi ar anghydraddoldebau iechyd



## Trafodaeth

### Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Mae'r dadansoddiadau a roddir yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod isafbris uned rhwng 35c a 70c yn ddull effeithiol o leihau faint o alcohol a gaiff ei yfed a niwed y gellir ei briodoli i alcohol. Yn achos isafbris uned o 50c amcangyfrifir y byddai maint yr alcohol a gâi ei yfed yn gostwng 3.6% ac y byddai 66 yn llai o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn a 1,281 yn llai o dderbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol ar ôl 20 mlynedd pan fydd y polisi'n cael ei effaith lawn.

Mae'r polisi hefyd wedi'i dargedu'n dda, gyda'r holl bolisiâu isafbris uned a fodelir yn arwain at leihad sylweddol fwy yn yr alcohol a gaiff ei yfed ymysg yfwyr niweidiol o gymharu ag yfwyr cymedrol. Byddai'r lleihad mwyaf ymysg yr yfwyr niweidiol mwyaf difreintiedig. Mae hyn yn bwysig, gan mai'r grwpiau hyn sydd â'r risg mwyaf o gael niwed oherwydd eu hyfed. Mewn cyferbyniad, byddai llawer iawn llai o effaith ar yfwyr cymedrol, gan gynnwys y rheiny yn y grwpiau mwyaf difreintiedig. Mae'r lleihad targededig hwn yn digwydd oherwydd bod isafbris uned yn creu cynnydd mawr ym mhrisiau'r alcohol rhataf, cynnydd bach ym mhrisiau alcohol sy'n cael ei werthu'n agos at y trothwy pris perthnasol a dim cynnydd uniongyrchol ym mhrisiau alcohol sy'n cael ei werthu am fwy na'r trothwy hwn. Mae'r yfwyr sydd â'r risg mwyaf yn prynu llawer iawn o alcohol ar brisiau isel sy'n debygol o weld effaith sylweddol gan isafbris uned a byddent yn wynebu cynnydd mawr yn y prisiau o ganlyniad. Mae yfwyr sydd â llai o risg yn llai tebygol o brynu'r alcohol rhad hwn, ac mae'r hyn maent yn ei brynu yn debygol of fod yn agosach at y trothwy isafbris uned, gan olygu mai dim ond ychydig o gynnydd mewn prisiau y byddent yn ei wynebu ar ôl i'r polisi gael ei gyflwyno.

Wrth edrych ar draws yr ystod o drothwyon isafbris uned a fodelir o 35c i 70c, mae patrwm eglur yn dod i'r amlwg. Mae lefelau uwch isafbris uned yn arwain at leihad mwy yn gyffredinol ym maint yr alcohol a gaiff ei yfed a lleihad mewn niwed cysylltiedig ag alcohol; fodd bynnag, maent hefyd yn llai targededig, gydag effaith ar gyfran fwy o'r alcohol sy'n cael ei brynu gan yfwyr cymedrol ac felly effaith fwy ar faint o alcohol maent yn ei yfed. Mewn geiriau eraill, po uchaf yw'r trothwy isafbris uned, mwyaf yw'r effaith, ond lleiaf mae'r effeithiau hyn wedi'u crynhoi ar y grwpiau yn y boblogaeth sydd â'r risg niwed mwyaf.

Byddai angen codi trethi ar alcohol yn fawr, rhwng 33% a 48%, i sicrhau'r un lleihad ym maint yr alcohol a gaiff ei yfed a'r marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol ymysg yfwyr trymach ag y byddai isafbris uned o 50c yn ei gyflawni. Byddai codi trethi fel hyn yn llai targededig ar yr yfwyr sydd â'r risg uchaf, byddai'n effeithio ar yfwyr cymedrol i raddau mwy a byddai'n llai effeithiol wrth leihau anghydraddoldebau iechyd y gellir eu priodoli i alcohol.

Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson yn fras â chorff mawr o dystiolaeth ar effeithiau cynyddu pris alcohol, <sup>40-44</sup> risgiau i iechyd cysylltiedig ag alcohol <sup>27</sup> ac ymarferion modelu a dadansoddi eraill sydd wedi edrych ar effeithiau posibl polisiâu isafbris yn y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill <sup>45-50</sup>. Mae gwahaniaethau rhwng y canfyddiadau hyn a gwaith blaenorol yn tueddu i godi o'r defnydd o ddata llai manwl sy'n creu angen am ragdybiaethau mwy problemus. Mae cymharu amcangyfrifon o addasiad Model Polisi Alcohol Sheffield yng Nghanaada â thystiolaeth werthuso o Ganada yn awgrymu bod y model yn geidwadol a'i fod o bosibl yn tanamcangyfrif effaith isafbris uned <sup>13,46</sup>.

## Cryfderau a chyfyngiadau

Mae Model Polisi Alcohol Sheffield yn offeryn arfarnu polisi alcohol sy'n arwain y byd ac mae dadansoddiadau blaenorol wedi cael eu cyhoeddi yn y cyfnodolion gwyddonol uchaf eu bri <sup>2,3,51,52</sup>. Mae'n darparu'r dadansoddiadau mwyaf cynhwysfawr sydd ar gael o effaith bosibl polisiâu alcohol, gan rychwantu ystod eang o ganlyniadau a chaniatáu dadansoddiadau o is-grwpiau allweddol o'r boblogaeth sydd o ddiddordeb polisi. Mae corff helaeth o ddadansoddiadau sensitifrwydd wedi dangos bod ein prif gasgliadau ar isafbris uned yn gadarn wrth amrywio'r prif ragdybiaethau, setiau data a dulliau dadansoddi a ddefnyddir yn y model <sup>2,3,8,9,53</sup>.

Mae nodweddion pwysig y model yn cynnwys:

- Cyfod y data lleol gorau sydd ar gael gyda thystiolaeth ryngwladol o ansawdd da;
- Cyfrifo am batrymau manwl newid rhwng cynhyrchion alcoholig a rhwng y fewnfasnach a'r allfasnach ar ôl newidiadau i brisiau;
- Cyfrifo am amrywiant ar draws mathau o gynnyrch a phwyntiau prisiau wrth drosglwyddo codiadau mewn trethi alcohol i brisiau;
- Modelu newidiadau ym maint cyfartalog yr alcohol a gaiff ei yfed pob wythnos a hefyd yfed ar un achlysur (h.y. goryfed mewn pyliau) a'r newidiadau cysylltiedig yn risg niwed cronig a niwed aciwt y gellir eu priodoli i alcohol;
- Cyfrifo am oediadau amser mewn newidiadau mewn niwed y gellir ei briodoli i alcohol ar ôl newidiadau i faint yr alcohol a gaiff ei yfed.

Mae cryfderau'r gwaith modelu hwn o gymharu â'n hadroddiad yn 2014 ar effeithiau posibl isafbris uned yng Nghymru<sup>1</sup> yn cynnwys defnyddio data ar faint o alcohol a gaiff ei yfed o Arolwg Cenedlaethol Cymru oedd newydd fod ar gael, yn lle'r sampl lai o ddata o Gymru o General Household Surveys 2008-2011 o'r Deyrnas Unedig gyfan. Mae'r dystiolaeth epidemiolegol a

ddefnyddiwyd i fodelu canserau y gellir eu priodoli i alcohol a chlefyd ischaemig y galon hefyd wedi cael ei diweddu i gyfrifo am ddatblygiadau pwysig yn y meysydd hyn. Yn olaf, mae dadansoddiadau newydd wedi cael eu cynnwys yn cymharu effeithiau posibl isafbris uned â chodi trethi alcohol gan ddewis y gwaith modelu codi trethi i sicrhau effeithiau cyfatebol i isafbris uned o 50c.

Mae'r cyfyngiadau ar bob fersiwn o Fodel Polisi Alcohol Sheffield yn cynnwys peidio â chyfrifo am effeithiau polisi eilaidd posibl gan gynnwys mwy o fasnachu alcohol anghyfreithlon, masnach trawsffiniol neu ailstrwythuro'r farchnad alcohol. Mae'r cyfyngiadau eraill yn cynnwys y rhagdybiaeth ar gyfer y rhan fwyaf o gyflyrau iechyd fod y berthynas rhwng faint o alcohol a gaiff ei yfed a risg yr un peth ar gyfer marwolaethau ac ar gyfer derbyniadau i ysbytai (er bod tystiolaeth ar wahân ar gael ac yn cael ei defnyddio ar gyfer cyflyrau cardiofasgwlaidd), a thanamcangyfrif faint o alcohol a gaiff ei yfed a'i brynu gan ddata arolygon – problem sy'n gyffredin i'r holl waith ymchwil ar alcohol ar lefel unigolion <sup>54</sup>.

Mae'r cyfyngiadau sy'n benodol i'r adroddiad hwn yn cynnwys y rhagdybiaeth fod patrymau prynu mewn cwintellau MALIC yn gyfwerth â phatrymau prynu yn yr un cwintellau incwm (h.y. bod pryniannau y cwintel MALIC mwyaf difreintiedig yn debyg i'r rhai yn y cwintel incwm isaf). Gan mai mesuriad lefel ardal yw MALIC, a mesuriad lefel aelwyd yw incwm, bydd rhywfaint o amrywiant rhwng y ddau grŵp hyn. Fodd bynnag, caiff hyn ei leddfu gan y ffaith mai incwm aelwyd yw un o elfennau mwyaf cyfrifiad MALIC a bod cydberthyniad sylweddol rhwng incwm a'r parthau eraill (diweithdra, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, yr amgylchedd ffisegol a thai) <sup>16</sup>. Mae'n bosibl mai effaith y rhagdybiaeth hon yw gorbwysleisio ychydig y gwahaniaethau rhwng cwintellau MALIC yn y prisiau a delir (ar ôl cyfrifo am wahaniaethau oherwydd oed, rhyw a dosbarthiad yfwr). Fodd bynnag, dylid nodi y gwnaethpwyd rhagdybiaeth debyg, gan gyfystyru'r cwintel MALIC isaf â'r gyfran o'r boblogaeth sydd mewn tlodi (fel y'i diffinnir yn nhermau incwm aelwyd) yn yr adroddiad yn 2014.

Cyfyngiad arall nad yw'n benodol i'r adroddiad hwn yw'r diffyg data sydd ar gael ar unrhyw raddiant amddifadedd yn y llinell sylfaen troseddau a'r rhagdybiaeth ganlyniadol, ar ôl cyfrifo am oed, rhyw a lefel yfed, fod y tueddiad i droseddu'n annibynnol ar lefel amddifadedd. Yn yr adroddiad hwn rydym wedi defnyddio data ar droseddau o ffynonellau cyhoeddus yr heddlu <sup>29</sup> a data demograffig ar unigolion sy'n ymddangos gerbron llysoedd oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Nid yw'r un o'r ffynonellau hyn yn cynnwys data ar statws economaidd gymdeithasol yr unigolion dan sylw. Mae data ar gyfer Cymru a Lloegr yn dangos bod nifer sylweddol fwy o droseddau'n cael eu cyflawni mewn ardaloedd mwy difreintiedig <sup>55</sup> ac mae hanes hir o lenyddiaeth ryngwladol sy'n awgrymu bod cyfraddau troseddau'n uwch ymysg grwpiau economaidd gymdeithasol is <sup>56,57</sup>. Felly mae'n debygol bod cyfraddau troseddau yng Nghymru'n uwch ymysg y rheiny sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig (yn gyffredinol, er mae'n bosibl nad yw hyn yn wir o angenrheidrwydd am rai mathau o drosedd). Felly effaith bosibl y cyfyngiad hwn yn y data a ddefnyddir yn y model yw tanamcangyfrif troseddau yn gyfan ac felly troseddau y gellir eu priodoli i alcohol yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'u goramcangyfrif yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. O ganlyniad i'r ffaith bod yr holl bolisiau a fodelir yn effeithio ar faint o alcohol a gaiff ei yfed yn y grwpiau mwy difreintiedig yn fwy na'r grwpiau llai difreintiedig, mae hyn hefyd yn golygu bod ein dadansoddiad, o bosibl, yn tanamcangyfrif gwir effaith bolisiau prisiau ar droseddau y gellir eu priodoli i alcohol. Mae hyn yn arbennig o wir am bolisiau isafbris uned, sy'n cael yr effaith fwyaf ar y grwpiau mwyaf difreintiedig.

Yn olaf, mae cyfyngiadau tebyg yn y data a ddefnyddir yng ngwaith modelu'r gweithle. Nid yw'r data hyn yn cynnwys amddifadedd lefel unigolion ac felly rydym yn rhagdybio bod cyfraddau

diweithdra ac absenoldeb yr un peth ar draws yr holl grwpiau amddifadedd. Gan fod diweithdra'n un o'r parthau wrth gyfrifo sgorau MALIC, mae'n anochel bod rhywfaint o gydberthyniad rhwng diweithdra ac amddifadedd. Am resymau tebyg i'r data troseddau a nodir uchod, mae hyn yn debygol o arwain at danamcangyfrif effaith polisïau prisiau, yn arbennig isafbris uned, ar absenoldeb o'r gweithle. Gan fod yr Arolwg Chwarterol o'r Llafurlu, yr amcangyfrif y cyfraddau absenoldeb ohono, yn cynnwys incwm, gallwn edrych ar gyfraddau gwahaniaethol absenoldeb yn ôl cwintel incwm, fel y'u dangosir yn Tabl 47. Mae'r rhain yn awgrymu bod cyfraddau absenoldeb yn uwch yn y grwpiau incwm is. Yn anffodus, nid yw maint sampl Cymru yn ddigon i gefnogi rhannu'r data hyn yn ôl oed, rhyw ac incwm; fodd bynnag, mae hyn yn debygol o arwain ein dadansoddiad i danamcangyfrif ymhellach wir effaith polisïau prisiau ar ganlyniadau yn y gweithle.

*Tabl 47: Diwrnodau gwaith a diwrnodau o absenoldeb pob blwyddyn yn ôl cwintel incwm*

| <b>Band incwm</b>        | <b>Diwrnodau gwaith cyfartalog pob wythnos</b> | <b>Cyfradd absenoldeb gyffredinol</b> |
|--------------------------|------------------------------------------------|---------------------------------------|
| <b>Cwintel 1 (isaf)</b>  | 3.73                                           | 2.1%                                  |
| <b>Cwintel 2</b>         | 4.53                                           | 1.7%                                  |
| <b>Cwintel 3</b>         | 4.70                                           | 0.6%                                  |
| <b>Cwintel 4</b>         | 4.75                                           | 1.1%                                  |
| <b>Cwintel 5 (uchaf)</b> | 4.77                                           | 0.6%                                  |

Yn olaf, nid yw ein dadansoddiad o ganlyniadau'r gweithle'n cyfrifo am y rhyngberthynas gymhleth rhwng ymddygiad yfed a diweithdra. Mae nifer fawr o astudiaethau yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol wedi dangos bod y berthynas hon yn ddeugyfeiriol (h.y. y gall yfed mwy arwain at ddiweithdra neu fel arall); fodd bynnag, ni ddeallir natur y berthynas hon yn llawn eto <sup>58,59</sup> ac felly mae'n anodd bod yn siŵr o'r effaith y mae gadael y berthynas hon allan o'n gwaith modelu yn ei chael ar yr amcangyfrifon o effaith polisïau prisiau ar yr economi ehangach yn yr adroddiad hwn.

## Diolchiadau

Hoffai'r awduron ddiolch i Madeleine Henney am ei gwaith ar y data troseddau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn. Hoffem hefyd ddiolch i'r gwahanol ddeiliaid a chyflenwyr data: Ystadegau Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Nielsen Company. Gwaith yr awduron yn unig yw'r adroddiad hwn ac nid oes gan ddeiliaid y data unrhyw gyfrifoldeb am y dadansoddiad na'r dehongliad o'r data a ddisgrifir.

## Cyfeiriadau

1. Meng, Y., Sadler, S., Gell, L., Holmes, J. a Brennan, A. *Model-based appraisal of minimum unit pricing for Wales: an adaptation of the Sheffield Alcohol Policy Model version 3*. (2014).
2. Holmes, J. *et al.* Effects of minimum unit pricing for alcohol on different income and socioeconomic groups: A modelling study. *Lancet* **383**, (2014).
3. Meier, P. S. *et al.* Estimated Effects of Different Alcohol Taxation and Price Policies on Health Inequalities: A Mathematical Modelling Study. *PLoS Med.* **13**, (2016).
4. Purshouse, R. *et al.* *Modelling to assess the effectiveness and cost-effectiveness of public health related strategies and interventions to reduce alcohol attributable harm in England using the Sheffield Alcohol Policy Model version 2.0. Report to the NICE Public Health Programme Development Group* (2009).
5. Purshouse, R. C. *et al.* Modelling the cost-effectiveness of alcohol screening and brief interventions in primary care in England. *Alcohol Alcohol.* **48**, (2013).
6. Angus, C., Thomas, C., Anderson, P., Meier, P. S. a Brennan, A. Estimating the cost-effectiveness of brief interventions for heavy drinking in primary health care across Europe. *Eur. J. Public Health* **27**, (2017).
7. Angus, C., Gillespie, D., Ally, A. K. a Brennan, A. *Modelling the impact of Minimum Unit Price and Identification and Brief Advice policies using the Sheffield Alcohol Policy Model Version 3*. (2015).
8. Meng, Y. *et al.* *Modelled income group-specific impacts of alcohol minimum unit pricing in England 2014/15: Policy appraisals using new developments to the Sheffield Alcohol Policy Model (v2.5)*. (2013).
9. Purshouse, R., Meng, Y., Rafia, R., Brennan, A. a Meier, P. S. *Model-based appraisal of alcohol minimum pricing and off-licensed trade discount bans in Scotland: a Scottish adaptation of the Sheffield Alcohol Policy Model version 2*. (2009).
10. Angus, C., Holmes, J., Pryce, R., Meier, P. a Brennan, A. *Model-based appraisal of the comparative impact of Minimum Unit Pricing and taxation policies in Scotland*. (2016).
11. Angus, C., Meng, Y., Ally, A. K., Holmes, J. a Brennan, A. *Model-based appraisal of minimum unit pricing for alcohol in Northern Ireland*. (2014).
12. Angus, C., Meng, Y., Ally, A. K., Holmes, J. a Brennan, A. *Model-based appraisal of minimum unit pricing for alcohol in the Republic of Ireland*. (2014).
13. Hill-McManus, D. *et al.* *Model-Based Appraisal Of Alcohol Minimum Pricing In Ontario And British Columbia: A Canadian adaptation of the Sheffield Alcohol Policy Model Version 2*. (2012).
14. Angus, C. *et al.* Cost-effectiveness of a programme of screening and brief interventions for alcohol in primary care in Italy. *BMC Fam. Pract.* **15**, (2014).
15. Angus, C., Holmes, J., Brennan, A. a Meier, P. S. *Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisïau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad interim Diweddariad ar yr enghraifft Isafbris Uned o 50c*. (2017).
16. Ystadegau Cymru. *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2014*. (2014).

17. Brennan, A. *et al.* The Sheffield alcohol policy model - A mathematical description. *Heal. Econ. (United Kingdom)* **24**, (2015).
18. Office for National Statistics. *Mid-year population estimates 2015*. (2016).
19. StatsCymru. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 yn ôl graddfeydd ac ardaloedd cynnyrch ehangach is. Ar gael ar <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2014>. (Cyrchwyd: 4 Ionawr 2018)
20. Office for National Statistics. Consumer Price Inflation time series dataset. (2017). Ar gael ar: <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/datasets/consumerpriceindices>. (Cyrchwyd: 4 Ionawr 2018)
21. Meng, Y. *et al.* Estimation of own and cross price elasticities of alcohol demand in the UK-A pseudo-panel approach using the Living Costs and Food Survey 2001-2009. *J. Health Econ.* **34**, (2014).
22. Ally, A. K. *et al.* Alcohol tax pass-through across the product and price range: do retailers treat cheap alcohol differently? *Addiction* (2014). doi:10.1111/add.12590
23. Rabinovich, L. *et al.* *Further study on the affordability of alcohol beverages in the EU*. (2012).
24. Office for National Statistics. Deaths by selected underlying cause, split by sex, Welsh Index of Multiple Deprivation (WIMD), and age group for deaths registered in Wales between 2014 and 2016 - Office for National Statistics. (2017). Ar gael ar: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/adhocs/007469deathsbyselectedunderlyingcausesplitbysexwelshindexofmultipledeprivationwimdandagegroupfordeathsregisteredinwalesbetween2014and2016>. (Cyrchwyd: 4 Ionawr 2018)
25. Curtis, L. a Burns, A. *Unit Costs of Health and Social Care 2016*. (2016).
26. Cardiff Research Consortium. *Health Outcomes Data Repository*. (2011).
27. Rehm, J. *et al.* The relationship between different dimensions of alcohol use and the burden of disease-an update. *Addiction* **112**, 968–1001 (2017).
28. Rehm, J., A. S., Shield, K. D. a Gmel, G. Risk relations between alcohol use and non-injury causes of death. (2017).
29. Home Office. Police recorded crime and outcomes open data tables. (2017). Ar gael ar: <https://www.gov.uk/government/statistics/police-recorded-crime-open-data-tables>. (Cyrchwyd: 4 Ionawr 2018)
30. Home Office. *Integrated Offender Management efficiency toolkit phase 2: revised unit costs of crime and multipliers*. (2011).
31. Bagnardi, V. *et al.* Alcohol consumption and site-specific cancer risk: a comprehensive dose–response meta-analysis. *Br. J. Cancer* **112**, 580–593 (2015).
32. Roerecke, M. a Rehm, J. Irregular heavy drinking occasions and risk of ischemic heart disease: a systematic review and meta-analysis. *Am. J. Epidemiol.* **171**, 633–44 (2010).



33. Roerecke, M. a Rehm, J. Alcohol consumption, drinking patterns, and ischemic heart disease: a narrative review of meta-analyses and a systematic review and meta-analysis of the impact of heavy drinking occasions on risk for moderate drinkers. *BMC Med.* **12**, 182 (2014).
34. Smith, K. a Foster, J. *Alcohol, health inequalities and the alcohol harm paradox.* (2014).
35. Bellis, M. A. *et al.* The alcohol harm paradox: using a national survey to explore how alcohol may disproportionately impact health in deprived individuals. *BMC Public Health* **16**, 111 (2016).
36. Sadler, S. *et al.* Understanding the alcohol harm paradox: an analysis of sex- and condition-specific hospital admissions by socio-economic group for alcohol-associated conditions in England. *Addiction* **112**, 808–817 (2017).
37. Beard, E. *et al.* Deconstructing the Alcohol Harm Paradox: A population based survey of adults in England. *PLoS One* **11**, e0160666 (2016).
38. Glover, D. a Henderson, J. *Quantifying health impacts of government policies.* (2010).
39. Holmes, J., Meier, P. S., Booth, A., Guo, Y. a Brennan, A. The temporal relationship between per capita alcohol consumption and harm: a systematic review of time lag specifications in aggregate time series analyses. *Drug Alcohol Depend.* **123**, 7–14 (2012).
40. Wagenaar, A. C., Salois, M. J. a Komro, K. A. Effects of beverage alcohol price and tax levels on drinking: a meta-analysis of 1003 estimates from 112 studies. *Addiction* **104**, 179–90 (2009).
41. Gallet, C. A. The demand for alcohol: a meta-analysis of elasticities. *Aust. J. Agric. Resour. Econ.* **51**, 121–135 (2007).
42. Fogarty, J. The demand for beer, wine and spirits: A survey of the literature. *J. Econ. Surv.* **24**, 428–478 (2010).
43. Nelson, J. P. Meta-analysis of alcohol price and income elasticities – with corrections for publication bias. *Health Econ. Rev.* **3**, 17 (2013).
44. Wagenaar, A. C., Tobler, A. L. a Komro, K. A. Effects of Alcohol Tax and Price Policies on Morbidity and Mortality: A Systematic Review. *Am. J. Public Health* **100**, 2270–2278 (2010).
45. Sharma, A., Vandenberg, B. a Hollingsworth, B. Minimum Pricing of Alcohol versus Volumetric Taxation: Which Policy Will Reduce Heavy Consumption without Adversely Affecting Light and Moderate Consumers? *PLoS One* **9**, e80936 (2014).
46. Zhao, J. *et al.* The relationship between minimum alcohol prices, outlet densities and alcohol-attributable deaths in British Columbia, 2002–09. *Addiction* **108**, 1059–1069 (2013).
47. Vandenberg, B. *et al.* Are Alcohol Taxation and Pricing Policies Regressive? Product-Level Effects of a Specific Tax and a Minimum Unit Price for Alcohol. *Alcohol Alcohol* **51**, 493–502 (2016).
48. Zhao, J. a Stockwell, T. The impacts of minimum alcohol pricing on alcohol attributable morbidity in regions of British Colombia, Canada with low, medium and high mean family income. *Addiction* **112**, 1942–1951 (2017).

49. Ludbrook, A., Petrie, D., McKenzie, L. a Farrar, S. Tackling Alcohol Misuse. *Appl. Health Econ. Health Policy* **10**, 51–63 (2012).
50. O'Connell, M., Griffith, R. a Leicester, A. *Price-based measures to reduce alcohol consumption*. (Institute for Fiscal Studies, 2013). doi:10.1920/BN.IFS.2012.00138
51. Purshouse, R., Meier, P., Brennan, A., Taylor, K. a Rafia, R. Estimated effect of alcohol pricing policies on health and health economic outcomes in England: an epidemiological model. *Lancet* **375**, 1355–1364 (2010).
52. Brennan, A., Meng, Y., Holmes, J., Hill-McManus, D. a Meier, P. S. Potential benefits of minimum unit pricing for alcohol versus a ban on below cost selling in England 2014: modelling study. *BMJ* **349**, g5452 (2014).
53. Meng, Y., Purshouse, R., Brennan, A. a Meier, P. *Model-based appraisal of alcohol minimum pricing and off-licensed trade discount bans in Scotland using the Sheffield Alcohol Policy Model version 2: an update based on newly available data*. (2010).
54. Gmel, G. a Rehm, J. Measuring Alcohol Consumption. *Contemp. Drug Probl.* **31**, (2004).
55. Office for National Statistics. Crime in England and Wales: year ending September 2017. (2017). Ar gael ar:  
<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingseptember2017>.
56. Becker, G. S. Crime and Punishment: An Economic Approach. *J. Polit. Econ.* **76**, 169–217 (1968).
57. Ehrlich, I. Participation in Illegitimate Activities: A Theoretical and Empirical Investigation. *Journal of Political Economy* **81**, 521–565
58. Jones, L. a Sumnall, H. *Understanding the relationship between poverty and alcohol misuse*. (2016).
59. Bauld, L. et al. *Alcohol misusers' experiences of employment and the benefit system: Research Report No. 718*. (2010).
60. Office for National Statistics. *Response to consultation on the National Statistics definition of alcohol-related deaths*. (2017).

## Atodiad

Tabl 48: Amcangyfrif o nifer y marwolaethau a derbyniadau i ysbytai pob blwyddyn a achosir gan alcohol yn ôl grŵp yfwyr a chwintel amddifadedd

|                                                                                                          | Cymedrol                        |          |          |          |                                | Peryglus                        |          |          |          |                                | Niweidiol                       |          |          |          |                                |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------|----------|----------|----------|--------------------------------|---------------------------------|----------|----------|----------|--------------------------------|---------------------------------|----------|----------|----------|--------------------------------|
|                                                                                                          | C1 MALIC (lleiaf difreintiedig) | C2 MALIC | C3 MALIC | C4 MALIC | C5 MALIC (mwyaf difreintiedig) | C1 MALIC (lleiaf difreintiedig) | C2 MALIC | C3 MALIC | C4 MALIC | C5 MALIC (mwyaf difreintiedig) | C1 MALIC (lleiaf difreintiedig) | C2 MALIC | C3 MALIC | C4 MALIC | C5 MALIC (mwyaf difreintiedig) |
| Llinell sylfaen marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn                                 | -12                             | -17      | -19      | -20      | -9                             | 52                              | 59       | 72       | 61       | 54                             | 81                              | 82       | 88       | 123      | 184                            |
| Llinell sylfaen marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol am bob 100,000 o yfwyr pob blwyddyn          | -4                              | -6       | -7       | -7       | -4                             | 46                              | 57       | 72       | 77       | 97                             | 444                             | 444      | 512      | 804      | 1,502                          |
|                                                                                                          |                                 |          |          |          |                                |                                 |          |          |          |                                |                                 |          |          |          |                                |
| Llinell sylfaen derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn                        | 810                             | 942      | 1,106    | 1,304    | 1,575                          | 3,133                           | 3,321    | 3,848    | 3,612    | 3,437                          | 2,013                           | 2,008    | 2,129    | 2,774    | 3,628                          |
| Llinell sylfaen derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol am bob 100,000 o yfwyr pob blwyddyn | 272                             | 329      | 381      | 489      | 661                            | 2,787                           | 3,255    | 3,879    | 4,505    | 6,192                          | 11,042                          | 10,932   | 12,330   | 18,127   | 29,683                         |

Tabl 49: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar faint o alcohol a gaiff ei yfed yn ôl grŵp yfwyr ac amddifadedd

|                                                                                                       |          | Cymedrol                              |          |             |             |                                      | Peryglus                              |             |             |             |                                      | Niweidiol                             |             |             |             |                                      |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------|---------------------------------------|----------|-------------|-------------|--------------------------------------|---------------------------------------|-------------|-------------|-------------|--------------------------------------|---------------------------------------|-------------|-------------|-------------|--------------------------------------|
|                                                                                                       |          | C1 MALIC<br>(lleiaf<br>difreintiedig) | C2 MALIC | C3<br>MALIC | C4<br>MALIC | C5 MALIC<br>(mwyaf<br>difreintiedig) | C1 MALIC<br>(lleiaf<br>difreintiedig) | C2<br>MALIC | C3<br>MALIC | C4<br>MALIC | C5 MALIC<br>(mwyaf<br>difreintiedig) | C1 MALIC<br>(lleiaf<br>difreintiedig) | C2<br>MALIC | C3<br>MALIC | C4<br>MALIC | C5 MALIC<br>(mwyaf<br>difreintiedig) |
| Poblogaeth yfwyr<br>Llinell sylfaen faint o<br>alcohol a gaiff ei yfed<br>am bob yfwr pob<br>blwyddyn |          | 297,937                               | 286,322  | 290,248     | 266,503     | 238,332                              | 112,441                               | 102,031     | 99,177      | 80,181      | 55,509                               | 18,234                                | 18,365      | 17,267      | 15,304      | 12,221                               |
|                                                                                                       |          | 231                                   | 211      | 213         | 200         | 194                                  | 1,228                                 | 1,245       | 1,262       | 1,219       | 1,216                                | 3,892                                 | 4,168       | 3,244       | 4,081       | 4,367                                |
|                                                                                                       |          |                                       |          |             |             |                                      |                                       |             |             |             |                                      |                                       |             |             |             |                                      |
| Newid<br>absoliwt<br>(unedau<br>am bob<br>yfwr pob<br>blwyddyn)                                       | IU o 35c | 0.0                                   | 0.0      | -0.2        | -0.8        | -1.3                                 | 0.5                                   | -3.0        | -5.7        | -9.8        | -24.4                                | -6.5                                  | -22.1       | -30.2       | -34.4       | -350.2                               |
|                                                                                                       | IU o 40c | 0.0                                   | -0.1     | -0.4        | -1.5        | -2.5                                 | -0.3                                  | -7.7        | -12.6       | -21.4       | -44.6                                | -11.9                                 | -38.9       | -72.1       | -77.5       | -581.6                               |
|                                                                                                       | IU o 45c | 0.2                                   | -0.2     | -0.8        | -2.6        | -4.2                                 | -1.6                                  | -14.6       | -22.5       | -36.9       | -70.7                                | -16.8                                 | -56.3       | -124.6      | -127.0      | -841.1                               |
|                                                                                                       | IU o 50c | 0.3                                   | -0.5     | -1.5        | -4.3        | -6.9                                 | -3.6                                  | -24.0       | -37.2       | -56.9       | -102.7                               | -26.4                                 | -78.0       | -193.7      | -191.8      | -1,118.9                             |
|                                                                                                       | IU o 55c | 0.2                                   | -1.3     | -2.9        | -6.8        | -10.8                                | -7.7                                  | -37.2       | -56.5       | -82.6       | -141.1                               | -41.9                                 | -110.5      | -282.4      | -280.8      | -1,280.8                             |
|                                                                                                       | IU o 60c | -0.1                                  | -2.7     | -4.9        | -10.0       | -15.6                                | -15.0                                 | -55.4       | -82.0       | -113.6      | -186.2                               | -68.4                                 | -152.5      | -383.0      | -369.4      | -1,458.6                             |
|                                                                                                       | IU o 65c | -0.8                                  | -4.6     | -7.5        | -13.8       | -21.2                                | -24.9                                 | -77.5       | -112.0      | -148.2      | -234.3                               | -99.6                                 | -200.8      | -483.2      | -472.7      | -1,639.9                             |
|                                                                                                       | IU o 70c | -1.9                                  | -6.9     | -10.7       | -18.2       | -27.1                                | -37.5                                 | -101.3      | -144.6      | -186.4      | -276.2                               | -133.4                                | -259.2      | -590.7      | -583.0      | -1,837.2                             |
|                                                                                                       |          |                                       |          |             |             |                                      |                                       |             |             |             |                                      |                                       |             |             |             |                                      |
| Newid<br>cymharol                                                                                     | IU o 35c | 0.0%                                  | 0.0%     | -0.1%       | -0.4%       | -0.6%                                | 0.0%                                  | -0.2%       | -0.4%       | -0.8%       | -2.0%                                | -0.2%                                 | -0.5%       | -0.9%       | -0.8%       | -8.0%                                |
|                                                                                                       | IU o 40c | 0.0%                                  | 0.0%     | -0.2%       | -0.8%       | -1.3%                                | 0.0%                                  | -0.6%       | -1.0%       | -1.8%       | -3.7%                                | -0.3%                                 | -0.9%       | -2.2%       | -1.9%       | -13.3%                               |
|                                                                                                       | IU o 45c | 0.1%                                  | -0.1%    | -0.4%       | -1.3%       | -2.2%                                | -0.1%                                 | -1.2%       | -1.8%       | -3.0%       | -5.8%                                | -0.4%                                 | -1.4%       | -3.8%       | -3.1%       | -19.3%                               |
|                                                                                                       | IU o 50c | 0.1%                                  | -0.2%    | -0.7%       | -2.2%       | -3.6%                                | -0.3%                                 | -1.9%       | -2.9%       | -4.7%       | -8.4%                                | -0.7%                                 | -1.9%       | -6.0%       | -4.7%       | -25.6%                               |
|                                                                                                       | IU o 55c | 0.1%                                  | -0.6%    | -1.3%       | -3.4%       | -5.5%                                | -0.6%                                 | -3.0%       | -4.5%       | -6.8%       | -11.6%                               | -1.1%                                 | -2.7%       | -8.7%       | -6.9%       | -29.3%                               |
|                                                                                                       | IU o 60c | -0.1%                                 | -1.3%    | -2.3%       | -5.0%       | -8.0%                                | -1.2%                                 | -4.5%       | -6.5%       | -9.3%       | -15.3%                               | -1.8%                                 | -3.7%       | -11.8%      | -9.1%       | -33.4%                               |
|                                                                                                       | IU o 65c | -0.4%                                 | -2.2%    | -3.5%       | -6.9%       | -10.9%                               | -2.0%                                 | -6.2%       | -8.9%       | -           | -12.2%                               | -2.6%                                 | -4.8%       | -14.9%      | -11.6%      | -37.6%                               |
|                                                                                                       | IU o 70c | -0.8%                                 | -3.3%    | -5.0%       | -9.1%       | -14.0%                               | -3.1%                                 | -8.1%       | -           | -           | -22.7%                               | -3.4%                                 | -6.2%       | -18.2%      | -14.3%      | -42.1%                               |

Tabl 50: Cyfran o'r lleihad cyfan ym maint yr alcohol a gaiff ei yfed o dan bolisiau isafbris uned ymysg is-grwpiau o'r boblogaeth

|                                        |                                        | Poblogaeth | Lleihad ym maint yr alcohol a gaiff ei yfed |          |          |          |          |          |          |          |
|----------------------------------------|----------------------------------------|------------|---------------------------------------------|----------|----------|----------|----------|----------|----------|----------|
|                                        |                                        |            | IU o 35c                                    | IU o 40c | IU o 45c | IU o 50c | IU o 55c | IU o 60c | IU o 65c | IU o 70c |
| <b>Poblogaeth</b>                      |                                        | 100%       | 100%                                        | 100%     | 100%     | 100%     | 100%     | 100%     | 100%     | 100%     |
|                                        |                                        |            |                                             |          |          |          |          |          |          |          |
| <b>Cymedrol</b>                        |                                        | 72%        | 6%                                          | 6%       | 7%       | 8%       | 10%      | 11%      | 12%      | 14%      |
| <b>Peryglus</b>                        |                                        | 24%        | 31%                                         | 35%      | 38%      | 40%      | 43%      | 45%      | 47%      | 47%      |
| <b>Niweidiol</b>                       |                                        | 4%         | 62%                                         | 59%      | 55%      | 52%      | 48%      | 44%      | 41%      | 39%      |
|                                        |                                        |            |                                             |          |          |          |          |          |          |          |
| <b>C1 MALIC (lleiaf difreintiedig)</b> |                                        | 22%        | 1%                                          | 1%       | 2%       | 2%       | 3%       | 4%       | 5%       | 6%       |
